

Canllaw: Comisiynu llety a chefnogaeth ar gyfer bywyd da i bobl gydag anabledd dysgu



Datblygu arfer blaengar a gwell
Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
Mawrth 2019



CLILC • WLGA

Comisiynwyd y ddogfen ganllaw hon gan:



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

Golygwyd gan Steve Garland o



Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Drake Walk
Caerdydd, CF10 4LG

 029 2046 8600

 enquiries@wlga.gov.uk

Mawrth 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Rhan 1	Cyflwyniad a chefnidir	2
Rhan 2	Llwybr wedi'i ganoli ar y person	7
	Cwestiwn 1: Beth ddylech chi fod yn ei gomisiynu?	7
	Cwestiwn 2: Sut mae pobl yn gwneud i hyn ddigwydd?	10
	Cwestiwn 3: Beth ddylai eich gweithgareddau comisiynu eu cyflawni i bobl gydag anabledd dysgu?	17
Rhan 3	Llety a chefnogaeth ar gyfer bywyd da	23
	Cwestiwn 4: Pa fath o dai ddylech chi gomisiynu?	23
	Cwestiwn 5: Beth ydy'r model gorau ar gyfer llety gyda chefnogaeth ar gyfer byw'n dda?	27
	Cwestiwn 6: Gyda pha safonau llety y dylai gwasanaethau cefnogaeth i fyw gydymffurfio?	33
Rhan 4	Cefnogaeth o ansawdd da	39
	Cwestiwn 7: Sut beth ydy cefnogaeth o ansawdd da?	39
Rhan 5	Caffael arloesol a blaengar	45
	Cwestiwn 8: Sut rydym yn datblygu prosesau caffael arloesol a blaengar?	45
Rhan 6	Comisiynu Strategol	51
	Cwestiwn 9: Beth ydy comisiynu strategol?	51
	Cwestiwn 10: Sut ydych chi'n comisiynu gwasanaethau effeithiol i bobl gydag anabledd dysgu yn cynnwys y rhai gydag anghenion dwysach?	54
	Cwestiwn 11: Sut ydych chi'n gwybod eich bod yn gwella llesiant?	59
	Cwestiwn 12: Sut y gallwch gynnal gwasanaethau cynaliadwy a chost effeithiol i gefnogi bywyd da?	61
Rhan 7:	Casgliad a'r camau nesaf	65
Atodiad 1	Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	67
Atodiad 2	Ystyried Galluedd Meddyliol	69
Atodiad 3	Mathau o fodelau o lety	71
Atodiad 4	Y prawf tenantiaeth real	73
Atodiad 5	Comisiynu strategol	75

Atodiad 6	Dewisiadau cyllido potensial i gefnogi rhywun yn eu llety	81
Atodiad 7	Rhestr o gyfrannwyr	84

Rhan 1 Cyflwyniad a chefnidir

A. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd y canllaw hwn gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (BCC). Diben y ddogfen ydy:
 - darparu canllaw ac archwilio dewisiadau ar gomisiynu llety a gwasanaethau cefnogi ar gyfer bywyd da i bobl gydag anabledd dysgu.
 - herio ac ailddiffinio'r model llety a chefnogi i set o egwyddorion sydd yn canoli'n fwy ar y person ac sydd yn fwy hyblyg; cynnig 'cefnogaeth ar gyfer bywyd da'. Mae'r dull yma yn ceisio galluogi pobl i ystyried amrediad eang o leoedd i fyw a darparu'r gefnogaeth mae person ei eisiau a'i angen.
 - adeiladu ar y canllaw cyffredinol ar 'Gomisiynu Gwasanaethau i Bobl gydag Anableddau Dysgu' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017.
 - cyfrannu'n uniongyrchol at 'Raglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu' Llywodraeth Cymru, sydd yn cynnwys argymhelliad i gynyddu dewisiadau llety yn agosach at gartref, drwy gydweithio gyda byrddau iechyd, awdurdodau lleol, darparwyr tai a darparwyr gofal cymdeithasol trydydd sector.
 - sicrhau buddsoddiad effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael yn hytrach na buddsoddi mewn modelau o ddarpariaeth gwasanaethau sydd wedi dyddio.
- 1.2 Mae wedi'i anelu yn bennaf at bobl a chyrrff sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau i ymgysylltu gyda phobl ag anabledd dysgu a gofalwyr di-dâl i gomisiynu llety a chefnogaeth. Ond mae wedi'i anelu hefyd at yr holl randdeiliaid sydd yn ymwneud â darparu cefnogaeth ar draws pob sector ac yn bwysicaf pobl gydag anabledd dysgu a gofalwyr di-dâl sydd yn deulu a ffrindiau wrth ganol chefnogaeth.
- 1.3 Mae'r canllaw hwn yn cynnwys egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA2014), Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau (UNCRRPD).
- 1.4 Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro fel bod modd i randdeiliaid ystyried y 12 cwestiwn allweddol ac adlewyrchu ar eu sefyllfa bresennol ac yn y dyfodol yn seiliedig ar yr atebion.

Cwestiwn 1:	Beth ddylech chi fod yn ei gomisiynu?	Tualen 7
Ateb:	Bywydau da.	
Cwestiwn 2:	Sut mae pobl yn gwneud i hyn ddigwydd?	Tudalen 10
Ateb:	Defnyddio arferion wedi'u canoli ar y person a chydgyhyrchu, sydd yn ganolog i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	
Cwestiwn 3:	Beth ddylai eich gweithgareddau comisiynu eu cyflawni i bobl gydag anabledd dysgu?	Tudalen 17
Ateb:	Fe ddylen nhw amddiffyn hawliau, hyrwyddo llesiant a chefnogi byw'n annibynnol.	
Cwestiwn 4:	Cwestiwn 4: Pa fath o dai ddylech chi gomisiynu?	Tudalen 23
Ateb:	Tai/rhandai cyffredin yn y gymuned.	
Cwestiwn 5:	Beth ydy'r model gorau ar gyfer llety gyda chefnogaeth ar gyfer byw'n dda?	Tudalen 27
Ateb:	Mae'r gefnogaeth orau ar gyfer byw yn golygu bod person yn byw yn eu cartref eu hunain ac yn gallu dewis pwy sydd yn darparu eu gofal a'u cefnogaeth.	
Cwestiwn 6:	Gyda pha safonau llety y dylai gwasanaethau cefnogaeth i fyw gydymffurfio?	Tudalen 33
Ateb:	Y safonau Reach hen sefydliedig.	
Cwestiwn 7:	Sut beth ydy cefnogaeth o ansawdd da?	Tudalen 39
Ateb:	Mae wedi ei ganoli ar y person ac mae iddo sawl elfen allweddol.	
Cwestiwn 8:	Sut rydym yn datblygu prosesau caffael arloesol a blaengar??	Tudalen 45
Ateb:	Sicrhau bod cydgyhyrchu a pherthnasoedd da yn ganolog i unrhyw broses.	
Cwestiwn 9:	Beth ydy comisiynu strategol?	Tudalen 51
Ateb:	Dylai dulliau wedi'u canoli ar y person hysbysu a gyrru gweithgareddau comisiynu strategol.	
Cwestiwn 10:	Sut ydych chi'n comisiynu gwasanaethau effeithiol i bobl gydag anabledd dysgu yn cynnwys y rhai gydag anghenion dwysach?	Tudalen 54
Ateb:	Comisiynu integredig a chydweithredol.	
Cwestiwn 11:	Sut ydych chi'n gwybod eich bod yn gwella llesiant?	Tudalen 59
Ateb:	Drwy fesur canlyniadau.	
Cwestiwn 12:	Sut y gallwch gynnal gwasanaethau cynaliadwy a chost effeithiol i gefnogi bywyd da?	Tudalen 61
Ateb:	Sicrhau bod methodoleg cyson a chadarn yn bodoli ar gyfer costio llety a chefnogaeth i bobl gydag anabledd dysgu.	

1.5 Dylai trefniadau pontio cadarn fod ar gael i bobl ifanc gydag anabledd dysgu sydd yn symud i oedoliaeth a dylai'r holl egwyddorion yn y canllaw hwn fod yn gymwys. Mae polisiâu a phrotocolau pontio ar lefel lleol a chenedlaethol yn bodoli y dylid eu cymryd i ystyriaeth ochr yn ochr gyda'r canllaw hwn.

B. Cefndir

- 1.6 Mae'r model 'byw gyda chefnogaeth' traddodiadol yn aml yn cael ei gysylltu gyda cartrefi grŵp bach gyda thri neu bedwar person yn rhannu llety, yn byw mewn tŷ cyffredin yn y gymuned. Drwyddo caewyd sefydliadau mawr a darparu'r cam nesaf tuag at fyw'n annibynnol a lleoliadau yn y gymuned.
- 1.7 Dylem ddathlu cyflawniadau gwasanaethau cefnogaeth i fyw. Yng Nghymru rydym yn falch o'n hymdrechion i symud i ffwrdd oddi wrth ofal sefydliadol ac, wrth i wasanaethau byw gyda chefnogaeth ddatblygu, maen nhw wedi arddangos gallu i ddarparu gofal a chefnogaeth effeithiol i bobl gydag amrediad eang iawn o anghenion yn cynnwys y rhai gydag anghenion mwy dwys.
- 1.8 Ond, mae perygl y gall ddatblygu yn ddull 'un maint i bawb' a gall greu'r un diwylliant sefydliadol yr ydym wedi ymdrechu i symud oddi wrtho. Gall cefnogaeth i fyw gael ei lurgunio ac felly yn hytrach na gwir ddewis a rheolaeth, mae pobl yn darganfod eu hunain yn byw mewn gofal preswyl drwy ddiffyg.
- 1.9 Mae Simon Duffy (2013) yn ysgrifennu:
- "Dylai ein dyheadau gynnwys helpu pobl i ddarganfod cartrefi gwirioneddol heb geisio ffitio pobl i fodolau gwasanaeth – yr ysbyty, yr hostel, y cartref grŵp neu fflat unigol. [Yn hytrach] dylid trin pob person fel unigolyn a gweithio gyda nhw i'w helpu i gael y dewis tai a chefnogaeth sydd yn iawn iddyn nhw."*
- 1.10 Dylem ddatgan ar y cychwyn, cyn belled â bod ansawdd gofal a chefnogaeth yn gywr i'r bobl dan sylw, gall chefnogaeth ar gyfer bywyd da ddiwallu anghenion pobl yn cynnwys y rhai gydag anghenion cymhleth.
- 1.11 Mae angen i lunwyr penderfyniadau ar lefelau gweithrediadol a strategol byrddau iechyd ac awdurdodau lleol gael dealltwriaeth glir o'r dewisiadau sydd ar gael.

1.12 Dros y degawd diwethaf, mae'r amgylchiadau ariannol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi bod yn heriol dros ben a phwysau cyson nas gwelwyd o'r blaen ar gyllidebau a galw cynyddol. Mae hyn yn ei dro wedi effeithio ar bobl gydag anabledd dysgu, gofalwyr di-dâl a darparwyr ac mae'n creu risg sylweddol i gynaliadwyedd y gwasanaethau yma. Dangosir hyn mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffrediol Cymru (dyddiad):

"[...] mae awdurdodau lleol yn tanamcangyfrif cymhlethdod a lefel yr her o ddiwallu anghenion llety hir dymor pobl gydag anableddau dysgu a'u gofalwyr. Rydym yn amcangyfrif y bydd angen i awdurdodau lleol gynyddu buddsoddiad o £365 miliwn mewn llety yn yr ugain mlynedd nesaf i ddelio gyda'r twf yn nifer y bobl gydag anableddau dysgu fydd angen tai, a'r cynnydd yn y nifer o bobl gydag anghenion cymhedrol neu ddwys. O dderbyn bod un rhan o dair o awdurdodau wedi lleihau gwariant a gwasanaethau yn y blynyddoedd diweddar, fe fydd yr her yma yn neilltuol o drwm."

1.13 Mae cydbwysu'r dyletswydd i ddarparu a chyflwyno gwasanaethau wedi'u canoli ar y person sydd yn caniatáu llais, dewis a rheolaeth gydag effeithiolrwydd cost, gwerth am arian a gyda'r pwysau ariannol ar gomisywyr yn amgylchedd heriol. Ond, nod y ddogfen yma ydy darparu enghreifftiau a chanllaw ar gyflawni'r cydbwysedd yma.

1.14 Mae'r canllaw yma yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd yn disgwyl i gyrff cyhoeddus weithredu mewn modd sydd yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb berygu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

1.15 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi bod yn rhan beirniadol a hanfodol y cyfleoedd adnoddau i gefnogi pobl yn eu cartrefi. O Ebrill 2019, fe fydd y Rhaglen Cefnogi Pobl yn dod yn rhan o Grant Cymorth Tai newydd a fydd hefyd yn cynnwys y Gronfa Atal Digartrefedd a'r Gronfa Gorfodi Rhentu Doeth Cymru. Prif ffocws y grant fydd atal digartrefedd a diogelu tenantiaethau. Mae trafodaethau yn parhau ynghylch sut i gymryd y cyllido presennol ar gyfer 'byw gyda chefnogaeth' sydd ar hyn o bryd yn dod drwy'r Grant Cefnogi Pobl i ystyriaeth.

1.16 Comisiynwyd y canllaw hwn gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (BCC) sydd â chylch gorchwyl i:

- datblygu, cefnogi ac amlygu gweithrediad arfer da mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau
- datblygu atebion effeithiol i alluogi pobl a'u gofalwyr di-dâl i gyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf iddyn nhw mewn perthynas â'u trefniadau gofal a chefnogi.

1.17 Mae'n perthynas â ffrydiau gwaith eraill, mae'r BCC wed cyhoeddi canllaw yn ddiweddar ar:

- Comisiynu Gwasanaethau yn Integredig i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd gydag Anghenion Cymhleth oherwydd Anabledd ac/neu Salwch.
- Canllaw Arfer Da ar Gomisiynu Gwasanaethau i Bobl gydag Anabledd Dysgu.

Mae yna ailadrodd sylweddol yn y canllaw hwn a'r dogfennau uchod. Ond ni fyddwn yn ailadrodd y negeseuon a nodir yn y dogfennau eraill yma.

1.18 Mae'r Rhaglen Gomisiynu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig eisoes yn gweithio gyda byrddau iechyd, awduroddu lleol a darparwyr i wella comisiynu gwasanaethau gofal preswyl i bobl gydag anabledd dysgu ac/neu anghenion iechyd meddwl. Efallai y bydd Partneriaid Rhanbarthol yn dymuno ystyried datblygu dull integredig o gomisiynu gwasanaethau i ddarparu bywyd da.

1.19 Lle mae'r prosiect yma yn cyfeirio at 'bobl' rydym yn gyffredinol yn cyfeirio at bobl gydag anabledd dysgu; mae 'gofalwyr di-dâl' yn cyfeirio at ofalwyr di-dâl sydd yn aelodau teulu neu yn ffrindiau; a defnyddir y term 'gofalwyr' yn unol â'r diffiniad o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhan 2 Llwybr wedi'i ganoli ar y person

Cwestiwn 1: Beth ddylech chi fod yn ei gomisiynu?

Ateb: Bywydau da

A. Beth ydy bywyd da?

2.1 Gellir diffinio bywyd da fel

- “Rhywle i fyw, rhywbeth i'w wneud, rhywun i'w caru” – h.y. cartref, galwedigaeth, perthnasoedd.
- Rydym wrthi yn dilyn amrediad o weithgareddau sydd yn ateb ein hanghenion ac yn ein helpu i reoli ein cyfrifoldebau a chyflawni ein dyheadau.
- Rydym yn byw mewn amrywiaeth eang o leoedd fel rheol gyda phobl rydym yn eu dewis ac yn poeni amdany'n nhw.
- Rydym yn cael cefnogaeth mewn amrediad eang o ffyrdd ac oddi wrth gwahanol bobl sydd â'r sgiliau rydym eu hangen.
- Mae'r hyn sydd yn iawn inni yn newid sawl tro wrth inni symud drwy fywyd.
- Fe ddylai pob un ohonom gael llais, dewis a rhywfaint o reolaeth dros yr hawliau sylfaenol yma. Dydy hyn ddim gwahanol i bobl gydag anabledd dysgu.

B. Beth ydy arfer da?

2.2 Dylunio dewisiadau sydd yn:

- adlewyrchu, cynnal ac/neu gryfhau asedau'r person a'u perthnasoedd.
- cynnwys y person, eu gofalwyr di-dâl a phobl allweddol eraill yn gyfartal wrth dylunio cefnogaeth.
- adlewyrchu arfer gorau mewn proffesiynau perthnasol.
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, annibyniaeth, dewis, parch a rolau gwerthfawr i'r person, yn ogystal â sgiliau a thechnegau arbenigol.

C. Beth allaf ei wneud?

2.3 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn cefnogaeth a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Beth ydy'r ffordd o fyw sydd yn iawn imi neu fy anwyliaid ar y cam hwn yn fy mywyd gyda fy nyheadau a'm cyfrifoldebau?
- Lle rydw i eisiau byw a gyda phwy rydw i eisiau byw?
- Pa gefnogaeth ydw i ei angen ac ym mha ffordd y gellid cynnig y gefnogaeth honno?
- Ydy anghenion fy ngofalwyr di-dâl wedi cael eu hystyried?

2.4 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i bobl feddwl am y bywyd o'u dewis nhw neu anwylyd.
- Gwrando ar straeon gan bobl ynghylch sut maen nhw wedi dewis byw yn llwyddiannus.
- Deall hawliau pobl sydd yn derbyn cefnogaeth.
- Sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael am ddewisiadau pobl yn eu hardal a defnyddio'r wybodaeth yma i hyrwyddo hyblygrwydd, trafodaeth ac arloesi.
- Annog a chymell darparwyr cefnogaeth, tai a chyrff eiriolaeth cymunedol eraill i fod yn hyblyg.
- Annog pobl i ddefnyddio eu sgiliau i gefnogi ei gilydd neu wella'r gefnogaeth er budd ehangach y gymuned.

2.5 Fe ddylai darparwyr cefnogaeth neu lety:

- Fod yn hyblyg ac yn ymatebol mewn ffyrdd sydd yn annog pobl i gael beth maen nhw eisiau yn hytrach na chyd-fynd gyda beth sydd ar gael.
- Darparu tystiolaeth eu bod yn llwyddiannus wrth addasu mewn ymateb i geisiadau gan bobl a chomisiynwyr.
- Cael gwybodaeth glir am y canlyniadau y maen nhw'n eu cyflawni gyda phobl, a thystiolaeth eu bod nhw'n defnyddio adnoddau yn y dull mwyaf effeithiol i bobl.

D. Beth sydd yn cael ei wneud?

2.6 Cefnogaeth ar gyfer byw drwy daliadau uniongyrchol (Sir y Fflint)

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydweithredu gyda phobl a'u cynrychiolwyr i ddefnyddio eu taliadau uniongyrchol i gyllido gofal a chefnogaeth sydd yn cael eu prynu gan ddarparydd gofal a chefnogaeth yn hytrach na bod y person yn cyflogi eu staff cefnogi eu hunain. Daw'r person (gyda chefnogaeth lle mae angen) yn ddeiliad y gyllideb ac yn gomisiynydd eu trefniadau cefnogi eu hunain, Mae hyn wedi eu galluogi i reoli mewn dull llawer mwy creadigol a symud cydbwysedd pŵer oddi wrth weithwyr proffesiynol i ddwylo'r person. Mae darparwyr cefnogaeth wedi croesawu'r cyfle yma i newid ac maen nhw'n chwarae rhan annatod yn natblygiad ethos wedi'i ganoli ar y person.

<http://www.siryfflint.gov.uk/en/PDFFiles/Social-Services/Adult-Social-Services/SSA-A12PP-Pooling-Direct-Payments-Guidance-English.pdf>

<http://www.siryfflint.gov.uk/en/PDFFiles/Social-Services/Adult-Social-Services/SSA-A12PPER-Pooling-Your-Direct-Payment-Easy-Read-English.pdf>

<http://www.siryfflint.gov.uk/en/PDFFiles/Social-Services/Adult-Social-Services/SSA-A12-Direct-payments.pdf>

- 2.7 Nod y dull sydd yn cael ei fabwysiadu ydy grymuso'r tenanditiad i gael rhagor o reolaeth, hyblygrwydd a dewis yn y ffordd maen nhw'n dewis byw eu bywydau. Mae'r tenantiaid wedi derbyn help gan eu perthnasau a Gwasanaethau Cymdeithasol y Fflint gyda'r broses comisiynu darparwydd cefnogaeth. Mae cydgyhychu wedi bod yn allweddol yn llwyddiant y dull yma o weithredu, ac mae pobl a'u cynrychiolwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau.
- 2.8 Mae'r awdurdod lleol yn fwriadol wedi osgoi bod yn or-gyfarwyddol o ran oriau cefnogi, gan ddewis caniatáu i'r darparwydd ddanos sut y bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn greadiol, mewn partneriaeth gyda'r person a'u cynrychiolwyr i gyflawni'r canlyniadau cytun

E. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol (NTDi) 2010 "Supported Living - Making the Move"
https://www.ndti.org.uk/uploads/files/Supported_Living_-_Making_the_Move,_May_2010.pdf

Cwestiwn 2: Sut mae pobl yn gwneud i hyn ddigwydd?

Ateb: Defnyddio arferion wedi'u canoli ar y person a chydgynhyrchu, sydd yn ganolog i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2.9 Mae'r canllaw hwn yn croesawu ac yn cwmpasu egwyddorion DGCLI 2014 a'r Codau Arfer cysylltiedig, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio dulliau wedi'u canoli ar y person.

A. Arfer wedi'i ganoli ar y person

2.10 Mae egwyddorion craidd arferion wedi'u canoli ar y person a chydynhyrchu yn sicrhau bod plant, pobl ifanc, oedolion a'u teuluoedd wrth ganol cynllunio a gwneud penderfyniadau.

2.11 Dylai asesu statudol a'r prosesau cynllunio gofal a chefnogaeth gael eu hategu gan arferion wedi'u canoli ar y person.

"Mae cynllunio wedi'i ganoli ar y person yn broses gynllunio sydd yn rhoi'r person yn y canol ac mae'n fwriadol yn symud pŵer tuag atyn nhw a gall helpu i adennill rhywfaint o'r rhyddid y mae pob un ohonom yn ei gymryd yn ganiataol" (Parley 2001).

2.12 Mae'r gofynion cyfreithiol a'r cyngor a ddarperir yn DGCLI 2014 a'r Codau Arfer cysylltiedig yn gwneud y defnydd o arferion wedi'u canoli ar y person fel gofyniad. (Gweler Atodiad 1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 tudalen 65).

B. Beth ydy arfer da?

2.13 Dylid seilio asesiad ar egwyddorion cydgynhyrchu fel bod ymarferwyr a phobl yn rhannu'r pŵer i gynllunio a darparu gofal a chefnogaeth gyda'i gilydd.

2.14 Egwyddorion craidd cydgynhyrchu ydy:

- Gwerthfawrogi cyfranogwyr fel pobl gyfartal ac asedau
- Adeiladu ar gryfderau
- Datblygu rhwydweithiau cefnogaeth cymheiriaid
- Ffocws ar ganlyniadau personol
- Perthnasoedd o ymddiriedaeth a chydbwysedd
- Hwyluso nid darparu.

2.15 Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn disgrifio cydgynhyrchu fel â ganlyn:
"Ar ei fwyaf trawsnewidiol, mae cydgynhyrchu yn galw am adleoli grym a rheolaeth. Mae strwythurau a systemau newydd yn gosod cydgynhyrchu fel "y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau", gan ddod â gweithwyr proffesiynol a'r rhai maen nhw'n eu cefnogi at ei gilydd fel partneriaid mewn comisiynu, dylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau [...]."

Yn ymarferol, yr hyn y mae cydgynhyrchu yn ei olygu ydy cydnabod bod pawb yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, mae gan bawb rhywbeth i'w gyfrannu ac mae galluogi pobl i gefnogi ei gilydd yn adeiladu cymunedau cryf, gwydn, yn cryfhau perthnasoeddd rhwng dinasyddion a darparwyr gwasanaethau ac yn gwella canlyniadau i bawb."

2.16 Mae pobl gydag anabledd dysgu, gofalwyr di-dâl a chomisiynwyr yn arweinwyr cyfartal wrth gomsiyu a chaffael gwasanaethau.

2.17 Dylai gwasanaethau wedi'u comsiynu fod yn sensitif i ddarparu cefnogaeth sydd yn sicrhau bod oedran, gogwyddiad rhywiol, materion diwylliannol ac unrhyw anghenion hanfodol yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth nodi cynlluniau unigol, a bod gwasanaethau yn cael eu darparu a'u dylunio ar y sail yma

C. Ffactorau allweddol i gyflawni canlyniadau wedi'u canoli ar y person

2.18 Cefnogi pobl i weithio allan beth sydd yn bwysig iddyn nhw, lle maen nhw eisiau bod neu beth maen nhw eisiau ei gyflawni; sut maen nhw'n mynd i wneud hynny; beth mae angen iddyn nhw ei wneud; gyda beth y gall eraill eu helpu; a pha help maen nhw ei angen gan wasanaethau.

2.19 Deall bod yr hyn sydd yn bwysig i ofalwyr di-dâl cyn bwysiced wrth ddatblygu cynllun cefnogi.

2.20 Yn aml mae pobl a gofalwyr di-dâl yn ei chael hi'n anodd i sgwrsio am y dyfodol. Fe fydd cael offer a dulliau sydd yn gallogi pobl i archwilio beth all fod yn bosibl yn galluogi'r person, gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd i ddechrau meddwl am y dyfodol.

2.21 Mae'n holl bwysig bod yna berson penodol gyda chyfrifoldeb dros gasglu gwybodaeth a chefnogi'r person, gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd drwy gydol y daith.

2.22 Ni all un gwasanaeth neu berson gyflawni'r canlyniadau eu hunain. Mewn gwirionedd yr unig ffordd o gyflawni canlyniadau positif ydy drwy eu cydgynhyrchu.

- 2.23 Mae'n holl bwysig bod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y person yn cael eu harchwilio a'u dal fel rhan o'r sgwrs 'Beth sydd yn bwysig'. Mae gwaith amlddisbyblaethol a thraws broffesiynol yn hanfodol. Fe ddylai fod gan bobl gydag anghenion iechyd ac ymddygiad cymhleth hawliau a chyfleodd cyfartal i gael mynediad i lety a chefnogaeth yn y gymuned
- 2.24 Mae taliadau uniongyrchol yn ddewis cadarnhaol i alluogi pobl i wneud eu trefniadau eu hunain fel a ddisgrifir yn enghraifft Sir y Fflint ar dudalen 7.
- 2.25 Rhaid i holl broses asesu a chynllunio gofal a chefnogaeth sicrhau bod y person yn derbyn cefnogaeth cyn belled â phosibl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywyd gan ddefnyddio pob dull posibl i gyfathrebu.
- 2.26 I bobl sydd heb y gallu efallai i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cefnogaeth, efallai y bydd yn angenrheidiol ystyried y fframwaith galluedd meddyliol a lles gorau. (Gweler Atodiad 2 Ystyried Galluedd Meddyliol, tudalen 67)
- 2.27 Mae'r Prawf Safonau Cyrhaeddiad a Thenantiaeth Real (Atodiad 4 prawf tenantiaeth real tudalen 71) yn darparu offer defnyddiol i gefnogi'r broses o sicrhau bod y dewis mwyaf priodol yn cael ei nodi.
- 2.28 I unrhyw un sydd yn gwneud penderfyniad ynghylch symud ymlaen o gartref mae'n aml yn hynod o ddefnyddiol cynnwys eiriolydd. Gall hyn fod pan mae person ifanc yn dymuno symud ymlaen ond efallai bod y gofawyr di-dâl yn cael trafferth gyda'r syniad, Fe fydd person heb y galluedd ac heb gynrychiolydd priodol angen Eiriolydd Galluedd Meddylion Annibynnol (IMCA).
- 2.29 Wrth i'r person ifanc ddod yn oedolyn gall fod yn briodol gwneud cais i'r Llys Amddiffyn i alluogi cynrychiolydd i reoli eu materion cyfreithiol ac ariannol.
- 2.30 Fe fydd paratoi'n gynnar am y dyfodol yn cefnogi pontio llyfn pan fydd person yn symud ymlaen o fyw gartref, er enghraifft, mae gan Ddirprwy Cyllid a Benodir gan y Llys hawl cyfreithiol i lofnodi tenantiaeth ar ran y person maen nhw'n ei gynrychioli.

2.31 Os ydy'r person yn dewis byw gyda phobl eraill, yn ddelfrydol dylid archwilio, cefnogi ac annog rhwydweithiau a pherthnasoedd naturiol. Lle mae pobl yn cael eu dwyn at ei gilydd heb wybodaeth flaenorol am ei gilydd, dylid eu galluogi i:

- Treulio amser gyda'i gilydd cyn gwneud penderfyniad os ydyn nhw eisiau byw yn yr un tŷ.
- Cyfarfod mewn man niwtral i ddechrau. Mae hyn yn arbed i'r tenantiaid presennol orfod dangos nifer o bobl o gwmpas eu cartref os nad ydyn nhw'n addas.
- Ymweliad am de ac edrych o gwmpas y tŷ.
- Efallai bod y tenantiad presennol yn dymuno cynhyrchu proffil un tudalen amdanyn nhw'u hunain a'u cartref pan maen nhw'n chwilio am bobl newydd.

Y pwynt pwysig ydy sicrhau bod y broses o gyflwyniadau a sefydlu cydnawsedd yn mynd ar gyflymdra y darpar denantiaid a'r tenantiaid presennol a bod gan bawb dan sylw lais yn y penderfyniad.

2.32 Ochr yn ochr ag archwilio dewisiadau potensial a chyfarfod gyda darpar gyd-denantiaid, fe ddylai'r comisiynydd rannu asesiadau, cynlluniau gofal a chefnogi a darlun cryno gyda'r darparpwydd cyfredol (Gweler Rhan 5, Cwestiwn 1)

2.33 Mae symud allan o fyw gyda gofalwyr di-dâl neu symud o un lle i'r llall yn ddigwyddiad sylweddol sydd yn cynnwys rhestr faith o bethau i'w gwneud a chryn dipyn o bryder. Mae gweithio gyda'ch gilydd i ddatblygu cynllun o beth sydd angen digwydd, pwy fydd yn gwneud tasgau neilltuol ac erbyn pryd yn hynod o ddefnyddiol i bobl a'u gofalwyr di-dâl.

2.34 Mae darparu gwybodaeth glir mewn fformat addas ar sut y caiff y gefnogaeth ei darparu i'r person gyflawni eu canlyniadau yn hanfodol cyn unrhyw symud. Mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn deall disgwyliadau'r person a'u teulu. Fe fydd cynlluniau gofal a chefnogaeth wedi'u cydgynhyrchu yn sicrhau nad oes unrhyw gymysgedd mewn disgwyliadau.

D. Beth allaf ei wneud?

2.35 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn gofal a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Ydw i yng nghanol y gwneud penderfyniadau?
- Oes gen i lais?
- Oes gen i reolaeth dros fy nyfodol?
- Ydw i'n gallu gwneud dewisiadau i ateb fy anghenion?

2.36 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Sicrhau bod yr holl staff perthnasol sydd yn gweithio gyda phobl fod wedi'u hyfforddi a bod ganddyn nhw'r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu sgysiau 'Beth sy'n bwysig' mewn dull wedi'i ganoli ar y person.
- Sicrhau bod canlyniadau personol yr holl bobl wedi'u nodi a bod proses adolygu yn bodoli.
- Sicrhau bod gan staff fynediad i amrediad o offer wedi'u canoli ar y person.
- Trefniadau integredig cadarn gyda phartneriaid i sicrhau bod cynllunio wedi'i ganoli ar y person yn bodoli.
- Sicrhau bod yna drefniadau gwaith agos gyda systemau dewis tai statudol a bod y rhain wedi'u hintegreiddio i'r broses gynllunio wedi'i ganoli ar y person.

2.37 Fe ddylai darparwyr:

- Datblygu gwasanaethau sydd yn hyblyg ac yn ymateb i'r canlyniadau a nodwyd.
- Gweithio mewn dull cydgynhyrchiol a chydweithredol gyda chomisiynwyr.
- Sicrhau eu bod ar gael ar gyfer ymgysylltiad cynnar gyda phobl pan fo angen.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n drylwyr i weithio mewn dull wedi'i ganoli ar y person yn cynnwys Cefnogaeth Weithredol a Chefnogaeth Ymddygiad Positif (PBS).
- Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sydd yn fesuradwy.

E. Beth sydd yn cael ei wneud?

2.38 Mae **Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu** yn cael eu cyllido i ddarparu Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol. Mae'r gwasanaeth yma yn gweithio ochr yn ochr gyda'r awdurdod lleol ac yn aml hwn ydy'r cam cyntaf i bobl a'u teuluoedd pan maen nhw'n dechrau meddwl am symud ymlaen i fyw gyda chefnogaeth. Mae'n wasanaeth yn seiliedig ar arferion wedi'u canoli ar y person. Mae pobl yn gallu cyfeirio eu hunain neu fe fydd gweithiwr cymdeithasol yn cyfeirio person pan fo sgwrs wedi digwydd am fod eisiau gwneud y symudiad. Dydy'r gwasanaeth ddim yn disodli rôl y gweithiwr cymdeithasol; yn hytrach mae'n ei ategu ac yn darparu gwerth ychwanegol i'r person a'u teuluoedd.

<http://www.conwy-connect.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/PFF-leaflet-biling-Sept-2015.pdf>

- 2.39 Mae ymgysylltu gyda'r rhai sydd eisoes yn byw'n annibynnol i greu fideos am lle maen nhw'n byw a sut fywyd sydd ganddyn nhw yn ffordd effeithiol o ddarparu gwybodaeth heb ymyrryd yn eu cartref. Gall defnyddio egwyl byr hefyd fod yn ffordd arall i berson ddarganfod sut brofiad ydy bod oddi cartref. Mae math o wasanaeth 'dewch i roi cynnig arni' yn ffordd arall y gall person ei ddefnyddio i ddysgu sut beth ydy cefnogaeth i fyw.
- 2.40 Mae **Cyngor Conwy** wedi datblygu Prosiect Cynnydd i helpu pobl a'r awdurdod lleol i ddatblygu dealltwriaeth mwy gwybodus am anghenion llety a chefnogaeth. Yn ogystal â gweithio yn uniongyrchol gyda phobl ar eu canlyniadau yn y gymuned, mae'r awdurdod wedi adnewyddu byngalo sydd yn wasanaeth 'dewch i roi cynnig arni' ar gyfer byw'n annibynnol. Gall pobl ddod i aros am y diwrnod, treulio'r noson neu aros am ychydig ddyddiau. Mae asesu anghenion byw dyddiol a chefnogaeth person yn cael ei arwain gan Therapydd Galwedigaethol. Darperir cefnogaeth gan wasanaethau gofal cartref mewnol Conwy, Mae treulio amser yn y byngalo yn rhoi cyfle i'r person weld os ydyn nhw'n barod i symud ymlaen o fyw gyda'u teulu. Mae'n helpu pawb dan sylw i:
- deall beth mae angen i'r person ei wneud i ddod yn barod
 - datblygu dealltwriaeth dda o ganlyniadau'r person, ac
 - ystyried sut y gellir cefnogi canlyniadau person cyn comsiynu gwasanaeth tymor hirach.

Mae C yn ddyn 21 oed gydag anabledd dysgu sylweddol. Mynychodd ysgol arbenigol leol cyn treulio tair blynedd mewn coleg preswyl yn datblygu ei sgiliau byw'n annibynnol, cael cyfleoedd gwaith a sgiliau cyflogadwyedd. Cefnogodd y gwasanaeth anabledd C i gyflawni ei ganlyniadau personol o fyw'n annibynnol a gweithio yn y diwydiant adeiladu. Gweithiodd y tîm cynnydd, gan ddefnyddio'r byngalo yng Nghanolfan Marl, gyda C yn ystod ei wyliau coleg i ddeall ei anghenion cefnogi yn well a sicrhau llety a chefnogaeth priodol am yr hir dymor. Bu'r tîm hefyd yn cydgysylltu yn agos gyda'r coleg preswyl.

Mae C bellach yn byw mewn fflat ei hun gyda'r gefnogaeth leiaf ac mae wedi cael ei gyfeirio at raglen waith. Roedd angen rhywfaint o gefnogaeth i symud i mewn i'w fflat ac i greu debyd uniongyrchol ond mae erbyn hyn yn annibynnol iawn ac yn defnyddio'r gymuned leol, yn siopa, yn defnyddio trafndiaeth cyhoeddus. Mae wedi gwneud ffrindiau newydd ac mae'n mynd i weithgareddau cymdeithasol.

Mae fflat C mewn bloc o 6. Mae staff a gyflogir gan dîm cefnogi Cyngor Conwy yn darparu cefnogaeth hyblyg i bobl sydd yn byw yn y fflatiau fel a phryd mae angen. Mae yna gysgu'i mewn yn y fflatiau ond mae hyn hefyd yn darparu cefnogaeth i floc arall o fflatiau rownd y gornel, yn cefnogi 13 o bobl.

F. Lle gallaf gale rhagor o wybodaeth?

- Mae'r dolenni canlynol i dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a hwb Gofal Cymdeithasol Cymru yn adnoddau defnyddiol i bobl a theuluoedd:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=en>

<https://socialcare.wales/hub/home>

- Rhan 3, Cod Ymarfer (Asesu anghenion pobl):
<https://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3en.pdf>
- Rhan 2 Cod Ymarfer (Gweithrediadau Cyffredinol):
<https://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2en.pdf>
- Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion):
<https://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4en.pdf>
- Galleudd meddyliol:
<https://www.gov.uk/government/collections/mental-capacity-act-making-decisions>
- Cydgynhyrchu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) 'Seeing is Believing': <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/39598>
- Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth Amddifadu o Ryddid:
<https://www.lawcom.gov.uk/project/mental-capacity-and-deprivation-of-liberty/>
- 'Canllaw Arfer Da:Comisiynu Gwasanaethau i Bobl gydag Anabledd Dysgu' 2017 y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a 'Chanllaw Arfer Da ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar Gomisiynu Gwasanaethau yn Integredig i Deuluoedd, Plant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Cymhleth' Medi 2018 (mae hwn yn cynnwys rhestr wirio comisiynu cynhyrchiol y gellir ei gymhwyso i oedolion gydag anabledd dysgu):
<https://www.wlga.wales/national-commissioning-board-wales>

Cwestiwn 3: Beth ddylai eich gweithgareddau comisiynu eu cyflawni i bobl gydag anabledd dysgu?

Ateb: Fe ddylen nhw amddiffyn hawliau, hyrwyddo llesiant a chefnogi byw'n annibynnol.

A. Beth ydy arfer da?

- 2.41 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i weithrediadau Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws gyda rhwymedigaethau rhyngwladol, yn cynnwys **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau** (UNCRPD) sydd yn hyrwyddo, diogelu a sicrhau mwynhad llawn a chyfartal o bob hawl dynol gan bobl anabl.
- 2.42 Mae erthyglau'r UNCRPD yn cynnwys amrediad eang o feysydd yn cynnwys hygyrchedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd, gwaith a chyflogaeth.
- 2.43 O ran byw'n annibynnol, mae Erthygl 19 (Byw'n Annibynnol a chael eich cynnwys yn y gymuned) yn cynnwys cyfeiriad at:
- Hawl cyfartal pobl anabl i fyw ac i gymryd rhan yn y gymuned.
 - Hawl pobl anabl i gael yr un dewis a rheolaeth â phobl heb fod yn anabl.
 - Llywodraeth yn cydnabod y dylai pobl anabl gael yr hawliau yma.
- 2.44 Mae'r **model cymdeithasol o anabledd** yn gynwysiedig yn yr UNCRPD ac mae wedi ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r model cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl gyda namau yn anabl oherwydd rhwystrau sydd yn bodoli yn gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol a rhwystrau corfforol a sefydliadol sydd yn gallu atal cynhwysiant a chyfranogiad pobl anabl ym mhob rhan o fywyd.
- 2.45 Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, mae 'nam' yn rhywbeth sydd yn hanesyddol wedi'i gyfeirio ato fel anabledd neu gyflwr iechyd. I nifer o bobl anabl (ond nid i bawb) mae eu nam yn rhan sylweddol o'u bywyd a gall ffurfio rhan o'u hunaniaeth personol. I rai pobl gall eu nam olygu rheolaeth sylweddol ac efalali eu bod angen cefnogaeth feddygol barhaus. Mae profiad o nam yn bersonol. Mae profiad pawb yn wahanol ac mae'r profiad hwnnw bob amser yn ddilys ac yn bwysig. Yn groes i

hynny, 'anabledd' ydy anghyfartaledd, anfantais, dadalluogi neu wahaniaethu sydd yn gallu effeithio ar bobl gyda namau o ganlyniad i rwystrau mynediad a chynhwysiant.

2.46 Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn nodi'r Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED). Yn gryno, mae hyn yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i dalu sylw dyledus i'r angen i:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddwch ac eledigaeth.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sydd yn rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phersonau nad ydyn nhw yn eu rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng personau sydd yn rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r personau nad ydyn nhw yn eu rhannu.

2.47 Mae gan y Ddeddf Cydraddoldeb Reoliadau Cymreig penodol sydd yn nodi bod rhaid i gyrrff rhestredig baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb rhaid i gyrrff cyhoeddus gynnwys pobl sydd yn cynrychioli buddiannau pobl sydd yn rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig, ac sydd â buddiant yn y modd y mae cyrrff cyhoeddus yn cyflawni ei weithrediadau.

2.48 Mae'r gofynion statudol yma yn darparu sail ar gyfer craffu a herio lleol ac i gyrrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth gyda phobl anabl i wella gwasanaethau lleol. Maen nhw hefyd yn darparu ffordd o nodi anghenion neilltuol neu batrymau anfantais a datblygu atebion sydd yn gweithio er mwyn delio gyda nhw.

2.49 Dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol: mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi bod dyletswydd ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau, drwy wneud 'addasiadau rhesymol, i gael gwared ar anfantais y mae pobl anabl yn eu wynebu er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i swyddi, addysg a gwasanaethau mor hawdd ag y mae pobl heb fod yn anabl yn gallu gwneud.

2.50 Mae'r dyletswydd yma yn gymwys i Lywodraeth Cymru ei hun hefyd yn ogystal ag i gyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r dyletswydd yma yn ategu'r model cymdeithasol o anabledd a gall, er enghraifft gynnwys:

- Sicrhau bod cyfathrebu a gwybodaeth yn hygyrch i bawb.
- Cyflwyno arferion sefydliadol mwy hyblyg.
- Symud neu leihau rhwystrau ffisegol yn yr amgylchedd.
- Darparu cynorthwyon neu offer i gefnogi cyflogai i wneud eu gwaith.

2.51 **Rhieni gydag anabledd dysgu.** Mae Erthygl 23 o'r UNCRPD yn nodi'n glir bod gan bobl gydag anabledd dysgu yr hawl i berthnasoedd a bywyd teulu. Mae ganddyn nhw'r hawl hefyd i ddewis gyda phwy maen nhw'n byw ac mae hyn yn cynnwys byw gyda phartner neu wŵr/gwraig ac unrhyw blant sydd ganddyn nhw. Mae'r UNCRPD hefyd yn datgan bod gan bobl anabl yr hawl i:

- "cael mynediad i wybodaeth sydd yn briodol i oedran, addysg atgenhedlol a chynllunio teulu"
- "penderfynu yn rhydd ac yn gyfrifol ar nifer eu plant a'r gofod rhyngddyn nhw" a
- "cymorth priodol [...] wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o fagu plant".

2.52 Mae Rhaglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru (Mehefin 2018) yn cyfeirio at y ffaith bod "rhieni gydag anabledd dysgu angen mwy o gymorth pwrpasol i'w alluogi i gadw eu plant lle mae'n bosibl". Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru) 2015 yn cynnwys "cynnal neu ddatblgu perthynas teulu neu berthnasoedd personol sylweddol eraill" a "chyflawni cyfrifoldebau gofal dros blentyn" o fewn y meini prawf cymhwysedd i oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae hyn yn golygu bod rhaid i wasanaethau gynneg cefnogaeth addas i bobl gydag anabledd dysgu i'w galluogi i rianta eu plant yn ddigonol ac yn ddiogel. Rhaid i unrhyw gymorth fod wedi'i ganoli ar y person ac yn seiliedig ar anghenion unigol y teulu. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwybodaeth hygyrch, cyrsiau rianta arbenigol, cymorth gyda chyllidebu neu dasgau domestig, hyfforddiant ymarferol un i un ac yn y blaen. Dylid cynnig cefnogaeth gan eiriolydd gyda gwybodaeth arbenigol am amddiffyn plant i unrhyw riant sydd yn mynd drwy'r broses amddiffyn plant, yn ogystal â dealltwriaeth dda o anghenion rhieni gydag anabledd dysgu.

B. Beth ydy llesiant?

2.53 Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r diffiniad o lesiant fel y'i hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 21014. Mae'r Ddeddf yn diffinio wyth agwedd gyffredin o lesiant:

- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthnasoedd domestig, teulu a phersonol
- Cyfraniad a wneir i gymdeithas
- Sicrhau hawliau
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety byw.

- 2.54 Mae DGCLI 2014 yn cynnwys Datganiad Llesiant Cenedlaethol (a ddisgrifir yn y canllaw cyffredinol). Mae hwn yn disgrifio'r canlyniadau llesiant y dylai pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, eu disgwyl er mwyn byw bywydau cyflawn. Nod y dull o drin comisiynu bywydau da ydy cefnogi pobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd i gyflawni'r canlyniadau yma. Yng nghyd-destun y canllaw hwn, mae hefyd yn anelu at sicrhau addasrwydd llety byw.
- 2.55 Fe ddylai awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried llesiant pobl ar bob cam o'u datblygiad yn cynnwys y cyfnod pontio o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion, a thrwy'r ddarpariaeth gofal a chefnogaeth i oedran hŷn. Egwyddor bwysig sydd yn sail i ddatblygiad cefnogaeth i wasanaethau byw ydy eu bod yn briodol i oedran. Gall yr hyn sydd yn addas inni yn 20 oed er enghraifft fod yn amhriodol pan rydym yn hŷn. Dylai asesiadau o angen, canlyniadau a gwasanaethau fod yn hyblyg bob amser.

C. Beth allaf ei wneud?

2.56 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn cefnogaeth a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Beth ydy fy hawliau o ran y gwasanaethau a'r cymorth yr wyf i a fy ngofalwyr di-dâl yn cael eu cynnig?
- Ydw i wedi cael fy ymgynghori ynghylch dyluniad a darpariaeth y gwasanaethau yma yn fy ardal?
- Ydy'r hyn rwyf yn ei wynebu yn wahaniaethu neu yn torri ar fy hawliau?
- Lle allaf gael gwybodaeth, cyngor a chymorth eiriolaeth?

2.57 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae methu â gwneud hynny yn creu'r perygl o fod yn atebol i hawliad gwahaniaethu neu adolygiad barnwrol.
- Ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid perthnasol fel rhan o asesiad effaith cydraddoldeb unrhyw ymarferiad comisiynu arfaethedig.
- Sicrhau bod arferion caffael yn cefnogi prif ffrydio'r Ddeddf Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol mewnol.

2.58 Fe ddylai darparwyr cefnogaeth neu lety:

- Bod yn hyblyg ac yn ymatebol mwn ffyrdd sydd yn annog pobl i gael beth maen nhw eisiau yn hytrach na gorfod derbyn beth sydd ar gael.
- Gallu dangos llwyddiant wrth addasu mewn ymateb i geisiadau gan bobl a chomisiynwyr.
- Cael gwybodaeth glir am y canlyniadau maen nhw'n eu cyflawni gyda phobl, a thystiolaeth eu bod yn defnyddio adnoddau yn y dull mwyaf effeithiol i bobl.

D. Beth sydd yn cael ei wneud?

2.59 Mae byw'n annibynnol yn golygu bod gan bobl anabl yr un rhyddid, urddas, dewis a rheolaeth ag sydd gan ddinasyddion eraill yn y cartref, y gwaith, mewn addysg ac yn y gymuned. Dydy hynny ddim o angenrheid yn golygu byw ar eich pen eich hun neu gorfod gwneud popeth drosoch eich hun. Mae'n golygu hawliau i gymorth ymarferol a chefnogaeth i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas ar yr un sail ag eraill.

2.60 Mae'n golygu sicrhau bod pobl o bob oedran ac o bob cymuned yn gallu cynnal byw'n annibynnol, mwynhau llesiant a chael mynediad i gefnogaeth priodol pan a sut maen nhw ei angen.

2.61 Mae nifer o gyrrff eiriolaeth yng Nghymru sydd yn gallu cefnogi pobl a gofalwyr di-dâl i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu trafod ac nid yn cael eu hanwybyddu. Maen nhw'n darparu amrediad o wasanaethau i gefnogi'r agenda hawliau dynol.

2.62 **Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan** (PGCG) ydy llais unedig grwpiau hunaneiriolaeth a phobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae'n gorff ar gyfer, ac yn cael ei arwain gan bobl gydag anabledd dysgu. Mae'n unigryw yng Nghymru gan mai dyma'r unig gorff cenedlaethol yn cael ei arwain gan aelodau sydd yn cynrychioli llais pobl gydag anabledd dysgu. Dolen: <http://allwalespeople1st.co.uk/>

2.63 **Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl gydag Anabledd Dysgu Cymru Gyfan** ydy'r unig gorff sydd yn cynrychioli barn rhieni a gofalwyr pobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru yn genedlaethol, ar y cyd ac yn unigol. Mae'n gorff ambarel i gyrrff a grwpiau cefnogi lleol a rhanbarthol yn cynnwys rhieni a gofalwyr. Mae eu partneriaid cynghrair ehangach yn rhannu ymrwymiad i wella hawliau a chydabyddiaeth gofalwyr di-dâl sydd yn cefnogi anwyliad sydd yn byw gydag anabledd dysgu. Llywodraethir y Fforwm hefyd gan ofalwyr di-dâl, gan sicrhau bod gan randdeiliaid fewnbwn clir i gyfeiriad strategol a gwaith craidd y corff. Dolen: <http://www.allwalesforum.org.uk/>

2.64 Anabledd Dysgu Cymru ydy'r corff cenedlaethol gyda'r nod i:

- Cryfhau llais, hawliau a statws plant, pobl ifanc ac oedolion gydag anabledd dysgu.
- Cryfhau gallu rhieni a theuluoedd pobl gydag anabledd dysgu i wneud cyfraniad cadarnhaol.
- Hyrwyddo amrediad o wasanaethau wedi'u canoli ar y person i blant ac oedolion gydag anabledd dysgu.
- Sicrhau bod Anabledd Dysgu Cymru yn rhoi esiampl dda yn y ffordd mae'n cael ei redeg.
- Dolen: <https://www.ldw.org.uk/>

E. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Gweithredu ar anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol: <https://beta.gov.wales/action-disability-right-independent-living>
- Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau (UNCRPD): <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html>
- Deddf Cydraddoldeb 2010: <https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance#overview>
- Prynu gwell canlyniadau: prif ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb mewn caffael: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/buying_better_outcomes_final.pdf
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <https://www.equalityhumanrights.com/en/commission-wales>

Rhan 3 Llety a chefnogaeth ar gyfer bywyd da

Cwestiwn 4: Pa fath o dai ddylech chi gomisiynu?

Ateb: Tai a rhandai cyffredin yn y gymuned.

A. Dewisiadau Tai

3.1 Mae 'Arfer da Canllaw ar Gomisiynu Gwasanaethau i Bobl gydag Anabledd Dysgu' y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn datgan:

"Fel rheol gyffredinol, ac ar sail cryn dystiolaeth yn ymwneud â'r ffordd orau o gyflawni deilliannau cadarnhaol i bobl, ac yn yr un modd y ffordd orau i fodloni gofynion urddas a hawliau dynol, dylai pobl ag anableddau gael eu cynorthwyo i fyw mewn fflatiau a thai ar raddfa fach yn y gymuned, na ellir gwahaniaethu rhyngddynt â llety arall yn y cyffiniau, a gerllaw eu gwreiddiau teuluol a chymunedol. Gall fod angen rhai addasiadau ar gyfer hygyrchedd corfforol ac er mwyn gallu symud a thrafod yn ddiogel, ac weithiau gall fod angen deunyddiau arbennig o gadarn ar gyfer diogelwch ychwanegol ac i leihau biliau atgyweirio. Fodd bynnag, ni ddylai hyn effeithio ar olwg gartrefol gyffredinol y cartref, na gwneud iddo sefyll allan fel cartref gwahanol i'w gymdogion. Trwy ddefnyddio neu atgynhyrchu tai cyffredin presennol, caiff y risg o greu llety ynghyd ar raddfa fawr ei lleihau. Fel rheol, ni ddylai fwy na phedwar o bobl rannu un cartref. Gall nifer y fflatiau annibynnol ar un safle fod yn fwy na phedwar, ond rhaid cymryd gofal i beidio â chreu'r argraff o geto, neu leihau'r tebygolrwydd y bydd unigolion yn cael eu derbyn a'u hintegreiddio yn y gymuned drwy gor-grynhoi".

3.2 Mae yna amrediad o ddewisiadau tai yn agored i bobl gydag anabledd dysgu, yn cynnwys:

- Perchnogaeth cartref lle mae'n bosibl.
- Llety drwy restr aros awdurdod lleol ar gyfer anghenion cyffredinol.
- Llety rhent sector preifat.
- Llety wedi'i gomisiynu'n arbennig a ddarperir gan ddarparwyr tai arbenigol.
- Llety'n cael ei rannu gyda gofalcwyr e.e. Rhannu Bywydau.

- 3.3 Lle mae gweithwyr achos yn gweithio drwy'r dewisiadau tai gyda phobl mae'n bwysig eu bod yn deall manteision ac anfanteision pob dewis fel bod modd darganfod y llety priodol. (Gwelr Atodiad 3 Mathau o fodolau o lety – tudalen 69)

B. Beth ydy arfer da?

Rôl strategaethau tai awdurdodau lleol wrth gomisiynu gwasanaethau llety i bobl gydag anabledd dysgu.

- 3.4 Gall darparu'r math cywir o dai naill ai gynorthwyo neu lesteirio integreiddio cymdeithasol. Gall hefyd fod yn sylfaenol o ran cyflawni nifer o'r canlyniadau a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n hanfodol pan fo penderfyniad yn cael ei weud am lety i rhywun, bod mynediad i eiddo priodol o'r math cywir ac yn yr ardal gywir.
- 3.5 Rhaid i dimau strategaeth tai awdurdodau lleol nodi anghenion llety sydd yn dod i'r amlwg dros y dair i'r pum mlynedd nesaf i lywio penderfyniadau i gomisiynu yn y Cynllun Datblygu Rhaglen. Fe ddylai nodi manylion am y mathau o gynlluniau tai y mae awdurdod yn eu blaenoriaethu a'r datblygiad dros gyfnod treigl o dair blynedd.
- 3.6 Mae cynnwys anghenion pobl gydag anabledd dysgu yn y Cynllun Datblygu Rhaglen yn hanfodol gan fod hyn yn galluogi Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i gael mynediad i'r Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Fe fydd hyn yn rhoi hwb i'r cyflenwad o lety ac yn sicrhau bod rhenti yn cael eu cadw'n fforddiadwy i denantiaid yn y dyfodol. Fe fydd perthynas waith gadarn rhwng comisiynu gofal cymdeithasol a strategaeth tai hefyd yn sicrhau bod comisiynwyr yn ymwybodol o gyfleoedd adnoddau lle maen nhw'n bodoli a'r cyfleoedd maen nhw'n eu cynrychioli i bobl gydag anabledd dysgu.

Gwella dealltwriaeth o ddewisiadau tai a chefnogaeth

- 3.7 Mae cyhoeddiad y Tim Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant (NDTi), 'Housing Choices Discussion Paper 4: Policy and practice recommendations' (Mehefin 2017) yn argymhell bod llywodraethau ynghyd â chyrf cynrychioliadol llywodraeth leol a'r GIG, yn buddsoddi mewn rhaglenni gwaith sylweddol i hysbysu comisiynwyr am y gwahanol ddewisiadau tai a chefnogaeth sydd ar gael, y sylfaen dystiolaeth y tu ôl iddyn nhw ac effaith pob un ar hawliau, dewisiadau, rheolaeth a chynhwysiant.

<https://www.ndti.org.uk/resources/publications/housing-choices-discussion-paper-4>

- 3.8 Fe ddylai hyn gynnwys gweithwyr cymdeithasol rheng flaen. Mae asesiadau unigol, fel rheol yn cael eu harwain a'u hwyluso gan weithwyr cymdeithasol, yn brif yrrwr penderfyniadau am fathau a dull tai a chefnogaeth. Gallai cymhwyso dealltwriaeth drylwyr o'r sylfaen tystiolaeth a'r amrediad o ddewisiadau sydd ar gael i broses gynllunio wirioneddol wedi'i chynllunio ar y person rymuso gweithwyr cymdeithasol i weithio tuag at ganlyniadau sylweddol gwell i bobl.
- 3.9 Mae'r NDTi hefyd yn argymhell datblygu a darparu adnoddau a hyfforddiant i ddarparwyr i'w galluogi i ddeall dewisiadau tai a chefnogaeth a hefyd i wneud y mwyaf o hawliau, dewis, rheolaeth a chynhwysiant cymunedol pobl oddi mewn i'r fframweithiau cyfreithiol cyfredol. Mae angen i'r hyfforddiant yma fod ar gael hefyd i uwch lunwyr penderfyniadau fel aelodau etholedig ac uwch reolwyr i'w helpu i hwyluso datblygiad yr amrediad mwyaf priodol o atebion gwasanaeth i wella canlyniadau i bobl a'u teuluoedd a hefyd i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.
- 3.10 Mae Atodiad 3 Mathau o Fodelau o Lety (tudalen 71) yn rhoi manylion am yr amrediad ehangach o ddewisiadau llety a ddylai fod ar gael i bobl gydag anabledd dysgu.

C. Beth allaf ei wneud?

2.65 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn cefnogaeth a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Pa amrediad o ddewisiadau tai sydd ar gael yn fy ardal?
- Sut ydw i'n cael mynediad i'r systemau sydd yn penderfynu pa ddewisiadau sydd ar gael?
- Pa rai ydy'r dewisiadau gorau i ddiwallu fy anghenion?
- Beth ydy'r strategaeth tai yn fy ardal? Ydy e'n adlewyrchu anghenion pobl anabl? Os na, pam?
- Ddylwn i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn natblygiad y strategaeth tai lleol?

3.11 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Canolbwyntio'r broses cynllunio cefnogaeth ar anghenion llety ac anghenion cefnogi.
- Sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth fanwl o'r dewisiadau tai sydd ar gael.
- Cynllunio ar gyfer llety ar y cam cynharaf posibl mewn bywyd person a chynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.
- Datblygu perthnasoedd cryf rhwng strategaeth tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

3.12 Fe ddylai darparwyr llety a chefnogaeth:

- Sicrhau bod ansawdd tai o'r safon uchaf ac yn diwallu anghenion person.
- Sicrhau bod y Safonau Reach yn cael eu diwallu. (Gweler A. Beth ydy arfer da?)
- Sicrhau bod yna eglurder rhwng rôl y darparydd tai a'r darparydd cefnogaeth.
- Sicrhau bod yna amrediad o ddewisiadau llety, modelau a lleoliadau yn eu hardal.

D. Beth sydd yn cael ei wneud?

Grŵp Llety Abertawe

3.13 Cynhelir cyfarfod misol gyda gofal cymdeithasol oedolion, cydweithwyr caffael, Comisiynydd Cefnogi Pobl, partneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a strategaeth tai Cyngor Dinas Abertawe.

3.14 Diben y cyfarfod ydy adolygu gofynion llety cyfredol ac yn y dyfodol pobl gydag anabledd dysgu yn yr awdurdod lleol er mwyn cynllunio darpariaeth llety yn effeithiol pan fo angen. Mae presenoldeb cynrychiolydd o'r strategaeth tai yn golygu bod modd dyrannu Grant Tai Cymdeithasol oddi mewn i'r Cynllun Datblygu Rhaglen pan fo angen, cyn belled â bod digon o Grant Tai Cymdeithasol ar gael. Mae hyn yn galluogi gwell lefelau darpariaeth, rhenti ar lefelau mwy cynaliadwy ac mae modd penderfynu a chynllunio anghenion llety am y tair blynedd nesaf ar sail treigl.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Nedd Port Talbot

3.15 Yng Nghyngor Nedd Port Talbot, mae'r swyddog llety yn allweddol i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau, cefnogi'r tîm gwaith cymdeithasol i reoli symudiadau unigol a chysylltu gyda'r strategaeth tai i ddatblygu llety newydd lle nad oes modd diwallu anghenion unigol oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r swyddog llety yn gweithredu fel 'arbenigwr' ar atebion llety ar gyfer cefnogaeth i fyw. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol i ddarparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi gwneud penderfyniadau.

E. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Tîmau anabledd dysgu lleol.
- Swyddogion strategaeth tai awdurdod lleol.
- <https://www.mencap.org.uk/advice-and-support/housing/housing-faqs>

Cwestiwn 5: Beth ydy'r model gorau ar gyfer llety gyda chefnogaeth ar gyfer byw'n dda?

Ateb: Mae'r gefnogaeth orau ar gyfer byw yn golygu bod person yn byw yn eu cartref eu hunain ac yn gallu dewis pwy sydd yn darparu eu gofal a'u cefnogaeth.

3.16 Un o'r heriau sydd yn wynebu pobl, gofalwyr di-dâl, comisiynwyr a darparwyr ydy'r dryswch ynghylch ystyr traddodiadol gwasanaethau 'byw gyda chefnogaeth', gofal preswyl a'r model Cysylltu Bywydau.

A. Beth ydy arfer da?

3.17 Mae'r Tîm Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi) wedi amlygu'r perygl y gall cartrefi pobl gydag anabledd dysgu weithredu yn fwy fel gwasanaeth gofal preswyl traddodiadol lle mae darparydd gofal yn rhedeg y cartref a chomisiynwyr yn gosod pobl yn y cartref hwnnw er bod ganddyn nhw efallai gytundeb tenantiaeth rhwymedigol. Mae'r NDTi yn nodi:

"Yr hyn sydd yn bodoli yn gyffredinol ydy cymysgedd o wasanaethau a landlordiaid nad ydyn nhw'n glir ynghylch yr hyn maen nhw'n ei ddarparu. Mae rhai'n dweud eu bod yn cynnig cartref parhaol ac eto dydyn nhw ddim yn cynnig sicrwydd deiliadaeth. Mae rhai yn cynnig sicrwydd deiliadaeth ac eto dim cartref gwirioneddol lle mae tenantiad yn mwynhau hawliau a rheolaeth. Mae angen inni fod yn llawer cliriach ynghylch yr hyn sydd yn cael ei gynnig a beth mae pobl yn ei gael. Ni ddylai cartref person fod yn wasanaeth yn eiddo i ddarparydd ac ni ddylai gwasanaeth dros dro gael ei ystyred yn gartref person. Mae realiti'r trefniant wrth gwrs yn bwysicach na'r hyn y mae'n cael ei alw ond fe fyddai diffiniadau cliriach o'r amrywiol wasanaethau tai a chefnogaeth yn ddefnyddiol i ddarparwyr tai a chefnogaeth yn ogystal ag i denantiaid."

3.18 Yr hyn sydd yn bwysig ydy, er y gallwn ddisgrifio'r gwahaniaethau rhwng cefnogaeth i fyw a gofal preswyl, ymddengys nad oes meini prawf clir i hysbysu pobl, gofalwyr di-dâl neu staff rheng flaen am yr amgylchiadau allai nodi pa un ydy'r dewis gorau. Dangosir hyn efallai gan y diffyg ymarfer cyson yn y defnydd o'r dewisiadau hyn ar draws Cymru.

- 3.19 Mae'r Ystadegau Cenedlaethol yn nodi twf yn y defnydd o gefnogaeth i wasanaethau byw i bobl rhwng 16-64 oed o 504 yn 2001/02 i 2,140 yn 2016/17 a dirywiad mewn gofal preswyl o 1,801 i 1,172 yn yr un cyfnod. Bu cynnydd sylweddol hefyd mewn lleoliadau Cysylltu Bywydau gyda hyd at 1,000 o bobl yn 2016/17. Ond mae'r gyfradd rhwng y defnydd o gefnogaeth i fyw ar gyfer gofal byw a phreswyl yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Mewn 16 awdurdod lleol mae yna ddefnydd uwch o gefnogaeth i fyw na gofal preswyl tra bod y gwrthwyneb yn wir mewn 6 awdurdod lleol arall. Mae rhai o'r gwahaniaethau hyn yn eithaf trawiadol. Mae'r gyfradd rhwng cefnogaeth i fyw a gofal cymdeithasol mewn un awdurdod lleol yn 214 i 18 fel ei gilydd; ac mewn ardal arall mae'n 26 i 15. Mae mwy o gydbwysedd mewn rhai, er enghraifft, 194 i 172. Yng Nghymru y cydbwysedd cyffredinol ydy 2140 o leoliadau cefnogaeth i fyw yn erbyn 1,172 o leoliadau gofal preswyl.
- 3.20 Mae'r ystadegau yma efallai yn arwydd bod rôl a chyfraniadau gwasanaethau traddodiadol 'cefnogaeth i fyw' a gofal preswyl wedi cymylu. Hefyd mae'r model 'cefnogaeth i fyw' wedi datblygu yn ddewis gwasanaeth yn hytrach na gwahaniaethu rhwng anghenion llety sydd angen amrediad o ddewisiadau a dewis gwasanaeth o amgylch cefnogaeth. Dylid delio gyda'r dryswch yma oherwydd maen nhw'n rhoi gwahanol fanteision i'r bobl sydd yn eu defnyddio. Mae'r rhain wedi cael eu hamlygu yng nghyhoeddiad yr NDTi 'Making the move: Developing Supported Living options for people with learning disabilities'.
- 3.21 Mae'n bwysig cydnabod bod **Cysylltu Bywydau** yn ddewis yr un mor ddilys i bobl anabl fel rhan o'r dewisiadau ehangach ar gyfer llety a chefnogaeth. Ar draws Cymru cefnogir ychydig dan fil o bobl mewn trefniadau Cysylltu Bywydau ac mae gan 78% anabledd dysgu.
- 3.22 Mae Cysylltu Bywydau yn ffurf rheoleiddedig o ofal cymdeithasol a ddarperir gan ofalwyr Cysylltu Bywydau cymeradwy gan gynllun Cysylltu Bywydau cofrestredig. Mae ar gael i oedolion sydd â thrwydded i feddiannu a chytundeb Cysylltu Bywydau clir yn penderfynu sut y byddant yn cael eu cefnogi i ateb eu nodau a'u dewisidau ffordd o fyw.
- 3.23 Mewn Cysylltu Bywydau, fe fydd person yn byw gydag unigolyn neu deulu cymeradwy, gan rannu eu bywyd teulu a chymunedol cymaint neu cyn lleieid ag y maen nhw eisiau, Mae gofalwyr Cysylltu Bywydau yn cael eu recriwtio drwy broses asesu llym sydd ynddo'i hun yn destun sicrwydd ansawdd gan banel annibynnol. Me cynlluniau Cysylltu Bywydau yn hyfforddi gofalwyr Cysylltu Bywydau ac yn monitro trefniadau.

3.24 Caiff gofalwyr Cysylltu Bywydau a'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi eu cydweddu'n ofalus i sicrhau cydweddoldeb. Yna maen nhw'n datblygu perthnasoedd gwirioneddol gyda'r gofalwr yn gweithredu fel 'aelod estynedig o'r teulu' fel bod rhywun yn gallu byw wrth galon y gymuned ond mewn lleoliad teulu cefnogol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r person yn symud i mewn gyda'r gofalwr Cysylltu Bywydau a'u teulu. Gall pobl aros am gyfnod hir, egwyl byr dymor, gofal seibiant, ailalluogi neu gefnogaeth dydd. Mae gofal a chefnogaeth wedi'u dylunio a'u cytuno ac mae pob person yn dewis pwy sydd yn eu cefnogi a sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu.

3.25 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynhyrchu canllaw drafft yn dangos y gwahaniaethau rhwng gwasanaethau 'cefnogaeth i fyw' a gofal preswyl traddodiadol. Mae hyn yn cael ei ddal isod ac rydym wedi cynnwys Cysylltu Bywydau ar gyfer cymhariaeth

3.26 Crynodeb o brif fanteision 'byw gyda chefnogaeth', Cysylltu Bywydau a gofal preswyl traddodiadol

Cefnogaeth i fyw	Cysylltu Bywydau	Gofal preswyl
Cartref ei hun neu denantiaeth.	Cytundeb trwydded heb sicrwydd deiliadaeth.	Cytundeb trwydded gyda sicrwydd deiliadaeth.
Mae gan y person yr hawl i ddewis pwy sydd yn darparu eu cefnogaeth a gall newid trefniadau cefnogi heb symud cartref neu symud cartref heb newid gofynion cefnogaeth.	Cartref teulu cyffredin a chefnogaeth wedi'i ddarparu gan ofalwyr cymeradwy. Wedi'i bersonoleiddio a'i gyd-dylunio	Darperir cefnogaeth fel rhan o'r pecyn gyda llety. Ni ellir newid yr un elfen heb effeithio ar y llall.
Fel tenant neu berchennog cartref mae gan y person yr hawl i ddewis gyda phwy maen nhw'n byw, os unrhyw un o gwbl	Y person a'r gofalwyr yn penderyfnu mewn partneriaeth gyda gweithwyr proffesiynol	Mae arfer da yn nodi y dylid cydweddu cydbreswywyr cymaint â phosibl ond yn ymarferol mae dewis nifer o bobl yn gyfyngedig o ran gyda phwy maen nhw'n byw.
Mae gan denantiaid a pherchnogion cartref hawliau llawn i fudd-daliadau lles yn cynnwys budd-dal tai, cymorth incwm a lwfans byw anabl.	Hawliau llawn i fudd-daliadau lles etc.	Mae gan bobl hawl i symiau cyfyngedig o fudd-daliadau lles ac mae'r rhan fwyaf yn cael lwfans gofal preswyl o tua £20 yr wythnos i brynu eiddo personol, dillad, gwyliau etc.

Cefnogaeth i fyw	Cysylltu Bywydau	Gofal preswyl
Yn gallu derbyn taliadau uniongyrchol, grant cefnogi pobl, Cronfa Byw'n Annibynnol ar gyfer chefnogaeth.	Yn gallu defnyddio ffrydiau cyllid eraill.	Dim yn gallu defnyddio y rhan fwyaf o gyllid ychwanegol ar gyfer cefnogaeth.
Dydy pobl ddim yn destun deddfwriaeth Amddifadu o Ryddid ond maen nhw angen trefniadau ar wahân drwy'r Llys Amddiffyn.	Dydy pobl ddim yn destun deddfwriaeth Amddifadu o Ryddid ond maen nhw angen trefniadau ar wahân drwy'r Llys Amddiffyn	Mae pobl yn destun deddfwriaeth Amddifadu o Ryddid.
Mae gan bobl fwy o hyblygrwydd o ran gweithgareddau a dydyn nhw ddim yn cael eu rheoli gan rotâu.	Mae gan bobl fwy o hyblygrwydd o ran gweithgareddau a dydyn nhw ddim yn cael eu rheoli gan rotâu.	Mae pobl yn debygol o fod yn ddibynnol ar batrymau/rotâu shifft staff ac felly mae hyblygrwydd gweithgareddau yn gyfyngedig.
Mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau.	Mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau.	Mae darparwyr gwasanaethau yn tueddu i ddarparu gwasanaethau mewnol ar gyfer glanhau, coginio a chynnal a chadw etc.
Os ydy person yn byw mewn cartref a ddarperir gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, caiff y landlord ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru a rheoleiddir y darparwyr gofal gan Arolygiaeth Gofal Cymru.	Fe fydd darparwyr Cysylltu Bywydau a gofalwyr yn destun rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.	Bydd y darparwyr gofal yn destun rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

3.27 Mae manteision yn amlwg i bob lleoliad ac mae'n holl bwysig deall beth sydd er lles mwyaf y person yn seiliedig ar yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw.

3.28 Fe fyddem yn disgwyl gwasanaeth wedi'i bersonoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau sydd yn gweithio i wneud y mwyaf o ddewis ac annibynaeth y person.

3.29 Lleoliadau gofal preswyl ydy'r mwyaf priodol i gynnig lleoliadau byr dymor neu frys neu rhan o gyfnod ponto ar sail dros dro. Mae trefniadau llety hir dymor parhaol ar y llaw arall yn darparu hawliau cynyddol pan ddilynnir dull yn seiliedig ar denantiaeth gan wahanu llety a chefnogaeth fel a nodir yn y tabl uchod.

3.30 Mae person yn byw yn eu cartref eu hunain gyda holl fuddiannau a manteision sydd yn galluogi llais, dewis a rheolaeth yn darparu'r enghraifft gorau o 'fywyd da' ac fe'i hatgyfnerthir gan y Safonau Reach.

B. Beth allaf ei wneud?

3.31 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn c efnogaeth a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Oes gennyf lais, dewis a rheolaeth dros y dewisiadau sydd ar gael?
- Oes gennyf ddigon o wybodaeth ar y dewisiadau sydd ar gael?
- Beth ydw i'n ei wneud os nad ydy'r dewis rwyf ei angen ar gael?
- Faint o ran mae fy nheulu a fy ffrindiau yn ei chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau?
- Os nad oes gennyf y galluedd, a oes system gywir ar gael i'm cefnogi i wneud penderfyniadau?

3.32 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Sicrhau bod cynllun gofal a chefnogaeth cadarn yn bodoli.
- Sicrhau bod amrediad o ddewisiadau ar gael, yn cynnwys taliadau uniongyrchol.
- Sicrhau bod gwybodaeth hawdd ei deall am y dewisiadau ar gael.
- Sicrhau bod cydweithrediad a chydgyhyrchu gyda darparwyr.

3.33 Fe ddylai darparwyr cefnogaeth neu lety:

- Sicrhau eu bod yn gosod y person wrth ganol y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir.
- Bod yn glir ynghylch y gwasanaeth a ddarperir.
- Gweithio mewn dull cydgyhyrchiol a chydweithredol gyda chomisiynwyr a darparwyr eraill.
- Hyrwyddo cynnydd o ran modelau llety a chefnogaeth.

C. Beth sydd yn cael ei wneud?

- 3.34 Yng Nghyngor Bwrdeistref Sir Torfaen mae'r swyddog strategaeth tai a'r tîm anabledd dysgu wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i nodi amrediad o anghenion llety pobl a gefnogir gan y tîm. Ar sail yr wybodaeth a gasglwyd, maen nhw wedi datblygu amredad o ddewisiadau llety gyda phecynnau cefnogi unigoledig pwrpasol. Mae hyn wedi cynnwys pobl gyda lefel is o anghenion a phobl gydag anghenion cymhleth. Maen nhw wedi gweithio gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi ymateb drwy ddatblygu dewisiadau tai yn seiliedig ar anghenion y pobl.
- 3.35 Mae hyn yn adlewyrchu'r model Agosach at Gartref a drafodir yn nes ymlaen yn y canllaw (A. Beth ydy arfer da? Tudalen 54) ac mae'n atgyfnerthu'r egwyddor bod mwy nag un model ar gael oddi mewn i adnoddau cyfredol cyn belled â bod yr holl randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd dros nod cyffredin, gyda'r person yn y canol. Mae hwn yn ddull tenantiaeth, yn seiliedig ar hawliau o weithredu.

D. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol (NDTi) 'Making the move Developing Supported Living options for people with learning disabilities'. Link: <https://www.ndti.org.uk/resources/publications/supported-living-making-the-move>.
- Safonau Reach mewn Byw gyda Chefnogaeth (Paradigm, Reach Standards in Supported Living) <http://www.paradigm-uk.org/reach-standards/>
- Fideo YouTube 'My front door' yn canolbwyntio ar anghenion grŵp o bobl yn byw mewn clwstwr o randai yn Nhorfaen a'u straeon personol. <https://www.youtube.com/watch?v=PvkMNzIUep8>

Cwestiwn 6: Gyda pha safonau llety y dylai gwasanaethau cefnogaeth i fyw gydymffurfio?

Ateb: Y Safonau Reach sefydledig.

A. Beth ydy arfer da?

3.36 Cyflwynwyd y cysyniad traddodiadol o 'fyw gyda chefnogaeth' i'r DU gan NDTi yn gynnar yn yr 1990au. Heddiw, mae iddo set o egwyddorion wedi'u diffinio yn y Safonau Reach ar gyfer Cefnogaeth i Fyw:

- Rwyf yn dewis gyda phwy i fyw.
- Rwyf yn dewis lle rwyf yn byw.
- Mae gennyf fy nghartref fy hun.
- Rwyf yn dewis sut rwyf yn cael fy nghefnogi.
- Rwyf yn dewis pwy sydd yn fy nghefnogi.
- Rwyf yn cael cefnogaeth dda.
- Rwyf yn dewis fy ffrindiau a fy mherthnasoedd.
- Rwyf yn dewis sut i fod yn iach ac yn ddiogel.
- Rwyf yn dewis sut i gymryd rhan yn fy nghymuned.
- Mae gennyf yr un hawliau a chyfrifoldebau â dinasyddion eraill.
- Rwyf yn caele help i wneud newidiadau yn fy mywyd.

Tra bod yr egwyddorion yma wedi'u datblygu mewn perthynas â chefnogaeth i wasanaethau byw, maen nhw'n parhau yn berthnasol ac yn gymwys i'r diffiniad cyfoes o lais, dewis a rheolaeth.

3.37 Mae sicrwydd tenantiaeth yn bwysig oherwydd mae'n rhoi tawelwch meddwl i'r person nad oes modd eu gorfodi i adael eu cartref oni bai eu bod wedi torri'r cytundeb tenantiaeth; ac/neu bod gweithrediadau cyfreithiol cywir wedi digwydd; a bod llys wedi cytuno y dylid rhoi meddiannaeth o'u cartref i'r landlord (NDTi).

3.38 Mae NDTi yn diffinio beth mae tenantiaeth dilys yn ei olygu (Atodiad 4 Y prawf tenantiaeth real – tudalen 73). Gwerth tenantiaeth dilys ydy y dylai atal gwasanaethau rhag symud pobl ymlaen mewn cyfnodau anodd. Mae angen i gomisiynwyr fonitro symudiadau o'r fath a chraffu ar y rhesymeg dros y penderfyniadau hyn. Dylid rhannu'r wybodaeth yma gyda darparwyr a'u trafod mewn unrhyw fforwm darparwyr sydd yn bodoli.

- 3.39 Mae neges glir yn seiliedig ar dystiolaeth ac arfer da bod modd i bobl sydd heb alluedd ddal tenantiaeth. Mae prosesau cyfreithiol y gellir eu defnyddio i wneud i hyn ddigwydd yn seiliedig ar fuddiannau gorau'r person. Yn ymarferol, mae nifer o gytundebau tenantiaeth heb eu llofnodi gyda chytundeb pob parti ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi cael unrhyw ganlyniadau negyddol ar y bobl na'r landlord. Mewn achosion cymhleth os, yn dilyn asesiad gwrthrychol gan berson cymwysedig addas, y casgliad ydy nad oes gan y person y galluedd mae yna nifer o ffyrdd i gytuno ar denantiaeth. Gall fod aelod o'r teulu neu ffrind sydd wedi cofrestru atwrneiaeth barhaus neu mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cais yn llwyddiannus i'r Llys Amddiffyn am ddirprwyaeth i greu neu i derfynnu tenantiaeth a chymryd unrhyw benderfyniadau ar iechyd a llesiant (sydd yn wahanol fathau o dwrneiaeth). Efallai y bydd comisiynwyr yn dymuno adolygu arfer cyfredol gyda landlordiaid a darparwyr gofal. Gellir gwneud hyn dros gyfnod o amser heb greu perygl o ddadsefydlu trefniadau llety a chefnogaeth cyfredol.
- 3.40 Mae'r Safonau Reach ar gyfer Cefnogaeth i Fyw yn cyd-fynd yn fras gyda chanllaw drafft Arolygiaeth Gofal Cymru ac maen nhw'n seiliedig ar bobl gydag anabledd dysgu yn cael eu cartrefi eu hunain a rheolaeth dros gyda phwy maen nhw'n byw, pwy sydd yn eu cefnogi a sut maen nhw'n cael eu cefnogi.
- "Byw gyda Chefnogaeth ydy lle mae pobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain ac yn derbyn gofal ac/neu gefnogaeth er mwyn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r gefnogaeth y mae pobl yn ei dderbyn yn cael ei deilwra o amgylch eu hanghenion unigol; gall un person fod angen cefnogaeth am ychydig oriau yr wythnos tra bod un arall angen cefnogaeth barhaus."*
- 3.41 Ni ddylai unrhyw lety mae person yn ei dderbyn fod yn destun gofal yn cael ei ddarparu gan asiantaeth neilltuol. Dylai fod gan bobl ddewis ac fe ddylid cael gwahaniaeth clir rhwng y landlord a'r darparydd gofal. Rheoleiddir y gofal y mae pobl yn ei dderbyn gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ond nid felly'r llety.
- 3.42 Gall fod comisiynwyr eisiau cymryd penderfyniad polisi i ddylunio'r holl wasanaethau gyda tai a chefnogaeth ar wahân i gynyddu hawliau pobl.
- 3.43 Mae'r Safonau Reach yn heriol iawn a gall rhai ddadlau eu bod bron yn amhosibl i'w cyflawni. Mae angen inni ddeall beth ydy'r rhwystrau a datblygu strategaethau i oresgyn y rhwystrau, nid eu hanwybyddu.

B. Beth allaf ei wneud?

3.44 Fe ddylai pob sydd yn derbyn chefnogaeth a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Faint o'r Safonau Reach sydd yn cael eu diwallu lle rydw i'n byw neu lle mae aelod o fy nheulu yn byw?

3.45 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Gwirio a sirchau bod y Safonau Reach yn cael eu diwallu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

3.46 Fe ddylai darparwyr cefnogaeth a llety:

- Gwirio a sirchau bod y Safonau Reach yn cael eu diwallu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

C. Beth sydd wedi cael ei wneud?

3.47 Mae **Rhwydweithiau Byw yn y Gymuned** fel y model Keyring yn gweithio drwy gefnogi a rhwydweithio pobl yn eu cartrefi eu hunain oddi mewn i ardal neilltuol.

3.48 Mae'r model Keyring yn recriwio gwirfoddolwyr neu yn cyflogi rhywun drwy daliad uniongyrchol sydd yn byw fel rhan o'r rhwydwaith ac yn darparu ychydig o gefnogaeth i bob aelod o'r rhwydwaith. Maen nhw hefyd yn canolbwyntio ar gael aelodau'r rhwydwaith i gefnogi ei gilydd ac i bobl ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol naturiol.

3.49 Gellir addasu'r model i weithio i bobl gydag anghenion cefnogi uwch sydd yn byw mewn ardal neilltuol

3.50 **Tai Gofal Ychwanegol** (NDTI – Making the move). Mae gan bobl eu fflat eu hunain oddi mewn i ddatblygiad ehangach o fflatiau i bobl eraill sydd angen cefnogaeth, weithiau gyda gofod cymunedol ychwanegol. Mae'r model yma yn rhoi'r fantais o rannu gydag eraill ond gyda'r hyblygrwydd i allu diwallu anghenion pobl na fydden nhw fel arall o angenrhaid yn dewis byw gyda'i gilydd.

3.51 Mae'r model yma hefyd yn gallu cynnwys deiliadaethau cymysg fel bod gan bobl y dewis i rentu, prynu'n rhannol neu brynu yn llawn.

3.52 Yn y model yma mae'n bwysig sicrhau bod y nifer o bobl sydd yn byw yn yr un adnawdd yn parhau'n weddol fach, i osgoi risg o sefydliadu a stigma yng ngolwg y cyhoedd yn gyffredinol sydd yn gallu codi o grwpio pobl anabl yn yr un lleoliad.

Ar hyn o bryd mae **Cyngor Sir Torfaen** yn darparu amrediad o ddewisiadau i bobl gydag anghenion cefnogi ychwanegol

Blaenafon

- 5 byngalo x 1 gwely i bobl gyda gofal cymhleth. Dyrennir yr unedau hyn drwy BIPAB – cefnogaeth 2:1 24 awr
- 4 fflat x 1 gwely ar gynllun adeiladu newydd i bobl gydag anghenion lefel isel. Dyrennir yr unedau hyn drwy banel gofal cymdeithasol

Pont-y-pŵl – mae'r holl unedau yma ar 1 cynllun

- 4 fflat x 1 gwely i bobl gyda gofal cymhleth. Dyrennir yr unedau hyn drwy BIPAB – cefnogaeth 2:1 24 awr
- 3 uned yn cael eu rhannu x 1 gwely i bobl gydag anabledd dysgu cymhleth a chefnogaeth 24 awr
- 2 fflat x 1 gwely i bobl gydag anableddau corfforol wedi'u dyrannu drwy banel gofal cymdeithasol – yn gallu cael cefnogaeth gan yr unedau uchod

Cwmbran

- 9 fflat x 1 gwely i bobl gydag anabledd dysgu lefel isel wedi'u dyrannu gan banel gofal cymdeithasol – cefnogaeth 24 awr yn wreiddiol ond nawr wedi' leihau i gefnogaeth fel y bo'r angen. Mae'r cynllun hwn yn gyfagos i gynllun byw'n annibynnol gofal ychwanegol ac mae felly'n gallu derbyn gwasanaethau yno hefyd
- 16 fflat x 1 gwely wedi'u rhannu yn
 - 4 x 1 gwely i bobl gydag awtistiaeth – mae gan yr ardal yma gyfleusterau cymunedol a chefnogaeth 24 awr ar y safle
 - 8 x 1 gwely byw'n annibynnol anableddau corfforol
 - 4 fflat x 1 gwely i bobl gydag anabledd dysgu lefel isel, cefnogaeth fel y bo'r angen ar gael o'r pecyn uchod

Ar y gweill

- 6 flat x 1 gwely, defnyddir yr unedau yma gan gofal cymdeithasol unrhyw berson sydd angen pecyn o ofal: corfforol anabl, anabledd dysgu, iechyd meddwl etc. – fe fydd pecyn gofal/cefnogaeth 24 awr ar gael
- 2 fflat cwbl hygyrch x 1 gwely
- 4 fflat anghenion cyffredinol x 1 gwely

3.53 Enghreifftiau o Cysylltu Bywydau

Cefnogaeth egwyl hir dymor a byr dymor

Mae Bryan a John yn ofalwyr Cysylltu Bywydau profiadol yn ne ddwyrain Cymru. Maen nhw'n cefnogi pobl hŷn gydag anabledd dysgu, dementia a salwch meddwl. Ar hyn o bryd maen nhw'n darparu cefnogaeth llawn amser i Phil sydd ag anabledd dysgu ac Alan sydd â phroblemau iechyd meddwl. Maen nhw hefyd yn darparu seibiant/egwyl byr i bobl eraill, yn cynnwys un person sydd wedi cael ei effeithio gan salwch ar yr ymennydd. Dywed Bryan "Pan ddaw pobl yma i fyw gyda ni, mae fel dod i deulu. Rydyn ni'n gwneud pethau gyda'n gilydd sydd yn ein gwneud yn hapus, boed yn gyfarfod ffrindiau am ginio yn y dafarn neu wrando ar gerddoriaeth. Mae Alan wedi datblygu perthynas mor dda gyda Phil, maen nhw'n treulio llawer o amser yng nghwmni ei gilydd yn siarad ac yn chwarae cerddoriaeth. Ac mae gennym ni berthynas hyfryd gyda theulu Alan hefyd. Imi mae Cysylltu Bywydau yn ymwneud â'r person. Rydym yn darparu cartref da, diogel ac yn rhoi'r gofod iddyn nhw i wneud beth maen nhw eisiau ei wneud, ac rydym yma iddyn nhw. Dydy e ddim yn 9 tan 5, mae'n 24/7 ond mae'r boddhad yno."

Uchelgeisiau oes

Stori Matthew: "Ers imi fod yn 8 oed, rwyf wedi hoffi trenau ac rwyf bob amser wedi bod eisiau gweithio ar y rheilffordd. Roedd pawb yn dweud na allwn wneud hynny am resymau iechyd a diogelwch oherwydd bod gennyf anhawster dysgu. Wnaeth fy ngofalwyr Cysylltu Bywydau Linda a John ddim bodloni gyda hyn. Roedden nhw'n dweud y dylwn gael yr un cyfle ag unrhyw un arall. Fe wnaethon nhw gysylltu gyda'r swyddgog gyrfaoedd. Trefnodd imi wirfoddoli mewn gorsaf leol. Sylwodd rheolwr o'r cwmni trên arna'i oherwydd fy mod yn gwneud mor dda. Dywedodd wrtha'i am gynllun peilot 4 wythnos i bobl gydag anhenion arbennig i ddod i mewn i'r diwydiant rheilffordd. Cefais fy rhoi ymlaen ar ei gyfer ac fe wnes ei gyflawni. Ychydig fisoedd ar ôl yr hyfforddiant cefais alwad ffôn yn cynnig swydd dydd Sadwrn yn glanhau trenau, 9 i 5. Ers hynny rwyf wedi bod yn gwneud y gwaith bob dydd Sadwrn. Mae'r rheolwyr yn dweud y gallaf fod yn gweithio ar y trenau mewn blwyddyn, Rwyf wedi cyflawni hyn gyda phenderfyniad fy hun ond hefyd gyda chefnogaeth Linda a John. Fe ddywedon nhw os oedd gennyf freuddwyd y dylwn fynd amdani ac fe wnaethon nhw fy nghefnogi'r holl ffordd."

Symud ymlaen

Daeth Sophie i Cysylltu Bywydau pan wnaeth bywyd y teulu dorri lawr. Roedd ganddi anabledd dysgu. Fe wnaeth ei gofalwyr Cysylltu Bywyd, Jenny a Mike, ddarparu cartref tawel cefnogol lle y gallai Sophie weithio ar y pethau oedd yn ei gwneud yn rhwystredig. Dwy flynedd yn ddiweddarach mae wedi gorffen coleg, wedi cwblhau profiad gwaith 6 mis ac wedi cychwyn yn ei swydd newydd. Mae'n edrych ymlaen at symud i gefnogaeth i fyw ond mae'n gwybod y bydd Mike a Jenny ar gael iddi bob amser.

- 3.54 Dydy gwasanaethau Cefnogaeth i Fyw ddim yn cydymffurfio gyda Safonau Reach.
- 3.55 Dydy'r dryswch ddim yn gyfyngedig i'r gwahaniaethau rhwng chefnogaeth i fyw a gofal preswyl. Gall person fod yn byw mewn trefniant tai wedi'u rhannu ac efallai bod ganddyn nhw denantiaeth ond efallai nad ydyn nhw'n gallu dewis eu darparwydd gofal a chefnogaeth. Dydy'r trefniant yma ddim yn cydymffurfio gyda'n dealltwriaeth o dai gyda chefnogaeth na'n dyheadau ar gyfer hawliau'r person oherwydd mae'r darparwydd gofal a chefnogaeth a llety yr un rhai.
- 3.56 Mae'n amlwg y gall comisiynwyr fod eisiau dangos eu bwriadau i beidio â chomisiynu gwasanaethau o'r fath ymhellach. Gellir gwneud hyn drwy gynhyrchu datganiadau safle'r farchnad fel a ddisgrifir isod. Ond rhaid rhoi ystyriaeth gofalus i anghenion y bobl sydd ar hyn o bryd yn byw mewn trefniadau o'r fath. Rhaid inni fod yn ymarferol, yn bragmataidd ac yn anad dim yn barchus o ddymuniadau'r bobl a'u teuluoedd. Gall fod y bobl a'u teuluoedd wedi cymryd rhan mewn dewis y trefniadau hyn allai fod â nifer o fanteision o ran bod yn agos at y teulu a ffrindiau er enghraifft. Fe fyddan nhw hefyd wedi datblygu perthnasoedd gyda staff a gyda'r gymuned. Lle mae person yn dymuno parhau gyda'r trefniadau yma rhaid ystyried eu dymuniadau. Yn yr un modd, ni ddylai comisiynwyr ddadsefydlogi gwasanaethau yn y tymor byr ond yn hytrach gweithio gyda darparwyr ar y trosglwyddo graddol i gefnogaeth i fyw.
- 3.57 Mae angen i gomisiynwyr sicrhau bod systemau yn bodoli i sicrhau bod staff yn cydymffurfio gyda pholisïau comisiynu'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a'r bwrdd partneriaethau rhanbarthol. Os ydy awdurdodau comisiynu eisiau sicrhau datblygiad cefnogaeth gwirioneddol i drefniadau byw fe fydd angen iddyn nhw sicrhau nad ydy eu bwriadau yn cael eu tansellio gan staff sydd yn mynd yn uniongyrchol at ddarparwyr eraill nad ydyn nhw'n cydymffurfio gyda'r bwriad yma.

D. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Papur Trafod Dewisiadau 4 NTDi Argymhellion Polisi ac Arferion: <https://www.ndti.org.uk/resources/publications/housing-choices-discussion-paper-4>
- Ategi Shared Lives <https://ategi.org.uk/>
- NTDi – Making the Move https://www.ndti.org.uk/uploads/files/Supported_Living_-_Making_the_Move,_May_2010.pdf
- Rhwydweithiau Byw yn y Gymuned <http://www.keyring.org/>
- Safonau Reach mewn Byw gyda Chefnogaeth (Paradigm, Reach Standards in Supported Living) <http://www.paradigm-uk.org/reach-standards/>

Rhan 4 Cefnogaeth o ansawdd da

Cwestiwn 7: Sut beth ydy cefnogaeth o ansawdd da?

Ateb: Mae wedi ei ganoli ar y person ac mae iddo nifer o elfennau allweddol.

4.1 Mae dulliau o weithredu wedi'u canoli ar y person wedi eu cydnabod fel yr allwedd i ansawdd mewn gwasanaethau anabledd dysgu am sawl degawd. Mae tai yn bwysig, ond mae ansawdd y gwasanaeth y mae pobl yn ei dderbyn hefyd yn bwysig oherwydd gall hyn wneud gwahaniaeth mawr o ran cyflawni canlyniadau llesiant. Yn ogystal ag amgylchedd diogel, cyfforddus o safon ffisegol da i fyw ynddo, mae pobl hefyd angen cefnogaeth i wneud dewisiadau, cymryd rheolaeth, cymryd rhan mewn pethau diddorol i'w gwneud a dysgu, datblygu perthnasoedd a chyfleoedd i gymryd rhan yn eu cymunedau. Efallai mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd ei angen ar rai pobl lle mae pobl eraill angen cefnogaeth ddwysach. Gall cefnogaeth dda edrych yn wahanol i bobl gwahanol ond dylid ei seilio ar yr elfennau ansawdd allweddol a restrir isod.

A. Beth ydy arfer da?

4.2 Mae gan gefnogaeth o ansawdd da yr elfennau allweddol canlynol i bob person:

- **Wedi'i ganoli ar y person:** Mae'r person a'r bobl bwysig yn eu bywydau yn nodi beth sydd yn bwysig iddyn nhw a sut i gyflawni eu huchelgeisiau. Mae gan bobl eu cynlluniau wedi'u canoli ar y person eu hunain sydd yn adlewyrchu eu barn, nodau ac anghenion. Yn ychwanegol, mae'r gweithrediadau wedi'u canoli ar y person canlynol yn hanfodol os ydy'r cynlluniau yma yn mynd i gael eu gweithredu yn ymarferol a chanlyniadau personol yn mynd i gael eu cyflawni.
- **Llais, dewis a rheolaeth** Cynorthwyr pobl i fynegi eu meddyliau a'u barn a gwrandewir a gweithredir ar y rhain. Mae'r person yn cael ei gynnwys cymaint â phosibl mewn penderfniadau ac fe'u cynorthwyr i wneud dewisiadau gwybodus yn amrywio o beth i'w gael i frecwast i gyda phwy maen nhw'n byw, pwy sydd yn eu cefnogi etc.
- **Cefnogaeth weithredol:** Mae pobl yn derbyn y lefelau cywir o gymorth wedi'i ganoli ar y person i gymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda gweithgareddau domestig, cymdeithasol, hamdden, gwaith, ac addysgiadol er mwyn iddyn nhw allu datblygu eu galluoedd drwy brofiad a chymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau beunyddiol.

- **Cyfathrebu cynhwysol:** Mae eraill yn cyfathrebu gyda'r person mewn dulliau maen nhw'n gallu eu deall. Maen nhw hefyd yn gallu dehongli ac ymateb i'r ffyrdd y mae'r person yn cyfathrebu. Gall hyn olygu defnyddio amrediad o ddulliau cyfathrebu, er enghraifft llefaredd, arwyddo, ffotograffau, ystumiau a chynorthwyon cyfathrebu fel iPads, PECS, pasbortau cyfathrebu etc.
- **Cynnydd ac annibyniaeth:** Cefnogir y person i ddysgu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar brofiadau newydd a chymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu bywydau, eu gofal a'u diogelwch eu hunain.
- **Cefnogaeth ac amgylcheddau cyson:** Cefnogir y person mewn dull cyffelyb gan staff cyfarwydd sydd yn eu hadnabod yn dda, er enghraifft gellir defnyddio trefn wedi'i ganoli ar y person ac amserlenni gweledol i helpu'r person ddeall beth sydd yn digwydd, rhagweld beth sydd yn mynd i ddigwydd nesaf ac i deimlo eu bod mewn rheolaeth. Mae staff yn gweithio'n gyson fel tîm ac yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd.
- **Cymryd risg positif:** Mae 'dull cryfderau' yn mesur manteision a niweidiau potensial amrywiol weithrediadau i gyflawni canlyniadau dymunol person ac i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn cynnwys nodi'r risgiau potensial dan sylw (asesiad risg da) a datblygu cynlluniau a gweithrediadau (rheolaeth risg da) i leihau niwed potensial ond parhau i gyflawni canlyniadau.
- **Rhyngweithio cymdeithasol positif a chefnogaeth i ddatblygu perthnasoedd:** Cynhelir a datblygir perthnasoedd person gyda theulu a ffrindiau ymhellach gan gynnwys perthnasoedd personol agos lle mae'n ddymunol. Mae gan y person gyfleoedd i dreulio amser gyda phobl maen nhw'n eu hoffi. Mae staff y mae'r person yn eu hadnabod ac yn eu hoffi (ac sydd yn adnabod ac yn hoffi'r person) yn treulio amser yn rhyngweithio gyda nhw ac yn gwneud pethau gyda'i gilydd.
- **Gofal personol ac iechyd:** Cynhelir urddas y person a hyrwyddir iechyd da. Cefnogir y person i gael mynediad i ofal iechyd proffesiynol, er enghraifft mynychu gwiriadau iechyd rheolaidd, apwyntiadau eraill a chefnogaeth i ddilyn cynlluniau triniaeth. Mae gwasanaethau iechyd generig yn gwneud addasiadau rhesymol i ateb anghenion y person. Caiff anghyfartaleddau iechyd eu herio a'u goresgyn.
- **Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol (PBS) i alluogi pobl gydag anghenion mwy cymhleth ac ymddygiad sydd yn herio i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn eu cymunedau:**

Mae **PBS** yn fframwaith eang moesegol wedi'i arwain gan werthoedd o gefnogaeth therapwtig yn seiliedig ar dystiolaeth sydd yn neilltuol o berthnasol i bobl gydag anghenion mwy cymhleth sydd weithiau ag ymddygiad sydd yn herio. Mae'r fframwaith PBS yn cynnwys y r elfennau allweddol a restrir uchod, yn cael ei ddarparu gyda mwy o ddwysedd ac ehangder a manylder. Mae hefyd yn cynnwys elfennau arfer da ychwanegol fel asesiad swyddogaethol ymddygiadol; dulliau tosturiol,

seicolegol ac iechyd meddwl; gofal trawma neu ymgysylltiad gwybodus; cydnabyddiaeth o brofiadau niweidiol plentyndod; therapi ymddygiadol gwybyddol etc.

- 4.3 Mae PBS wedi'i ganoli ar y person, yn rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar welliannau mewn llesiant yn ogystal ag ymyrraeth ac atal ymddygiad heriol yn gynnar. Mae PBS yn gwbl unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gyrrwyr deddfwriaethol a pholisi allweddol eraill. Mae Rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru 2018 yn argymhell gweithredu hyfforddiant PBS a Chefnogaeth Weithredol ar draws gwasanaethau ac oes pobl gydag anabledd dysgu. Mae PBS yn elfen allweddol mewn lleihau arfer cyfyngiadol yn cynnwys meddyginiaeth amhriodol. Dylai PBS fod ar gael i oedolion a phlant yn y cartref ac yn yr ysgol. Dylid cael canllaw i rieni a gofalwyr ar y defnydd o PBS a dylid ei gysylltu gyda hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE. Disgrifir PBS yn fanylach yng nghanllaw cyffredinol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i bobl gydag anabledd dysgu.
- 4.4 Gall PBS wella ansawdd bywydau pobl a'r rhai o'u hamgylch. Gall hefyd helpu i atal methiant trefniadau cefnogi sydd yn gallu esgor ar dderbyniadau amhriodol i ysbytai, lleoliadau diogel neu leoliadau preswyl eraill sefydliadol. Mae'r rhain yn aml yn drawmatig ac weithiau'n niweidiol i'r person gyda thystiolaeth cyfyngedig iawn o fudd therapiwtig.

B. Beth allaf ei wneud?

- 4.5 Dylai pobl sydd yn derbyn cefnogaeth a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:
- Ydw i'n gallu cymryd rhan, cydgynhyrchu a dal comisiynwyr a darparwyr i gyfrif?
 - Ydw i'n gallu mynnu bod comisiynwyr yn cynnwys fy anghenion a'm nodau unigol mewn manylebau contract a threfniadau cefnogi?
 - Ydw i'n gallu helpu i sicrhau bod fy anghenion cefnogi yn cael eu pennu'n glir mewn ffyrdd dealladwy?
 - Ydw i'n gallu eiriol bod pobl yn derbyn elfennau allweddol o gefnogaeth o ansawdd uchel yn cynnwys PBS, lle mae hyn yn ofynnol?

4.6 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Cydgynhyrchu trefniadau cefnogi gyda chyfranogiad llawn pobl, eu teuluoedd a darparwyr cefnogaeth.
- Sicrhau bod manylebau contract a phrosesau comisiynu yn pennu'r elfennau allweddol o gefnogaeth o ansawdd uchel a ddisgrifir uchod yn cynnwys PBS lle mae'n briodol.
- Cyllido cyrff darparwyr i ddarparu'r elfennau allweddol o gefnogaeth o ansawdd da yn gynaliadwy.
- Helpu ac annog darparwyr cefnogaeth i datblygu sgiliau a galluoedd eu staff.
- Helpu i atal a datrys problemau anghymarusedd mewn dull rhagweithiol.

4.7 Fe ddylai darparwyr:

- Cydgynhyrchu atebion gyda phobl a gofalwyr di-dâl a'u galluogi i gyfranogi.
- Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant sydd yn briodol i'w rôl ac yn cael cymwysterau mewn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel fel a ddisgrifir uchod.
- Datblygu arweinwyr ymarfer sydd yn fedrus ac yn brofiadol mewn darparu cefnogaeth o ansawdd da, yn arwain drwy esiampl ac yn hyfforddi staff yn rheolaidd yn ymarferol i ddatblygu eu sgiliau cefnogi.
- Recriwtio staff gyda'r ymagwedd a'r gwerthoedd cywir.
- Darparu telerau ac amodau cyflogaeth da.
- Galluogi staff i gael mynediad i gefnogaeth a hyrwyddo llesiant staff mewn dull rhagweithiol.
- Dyrannu staff y mae'r peron yn gyfarwydd â nhw ac yn eu hoffi, ac osgoi'r defnydd o staff asiantaeth neu anghyfarwydd.

C. Beth ydy'r dystiolaeth?

4.8 Mae elfennau allweddol o gefnogaeth o ansawdd da yn seiliedig ar ddegawdau o ymchwil, yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Bigby, C and Beadle-Brown, J (2018) Improving Quality of Life Outcomes
- in Supported Accommodation for People with Intellectual Disability: What Makes a Difference? Journal of Applied Research in Intellectual Disabilities 31, e182–e200
- Jones, E (2013) Back To The Future: Developing Competent Services For People With Intellectual Disabilities And Challenging Behaviour, Advances in Mental Health and Intellectual Disabilities Vol. 7: 1 pp. 5 - 17
- Gwaith gan yr Athro Peter McGill <https://www.kcl.ac.uk/sspp/policy-institute/scwru/news/2014/newsfolder/McGill-et-al-Capable-environments.pdf>
- The evaluation of Building The Right Support <https://www.strategyunit.co.uk/publications/building-right-support>

- Argymhellir PBS yn rhyngwladol ac mae'n gymwys yn eang i bobl hyglwyf, nid i bobl gydag anabledd dysgu yn unig. Yn y DU, argymhellir PBS gan Gymdeithas Llywodraeth Leol y DU, Sgilliau Gofal, yr Adran Iechyd, Coleg Brenhinol Nyrsio, Coleg Brenhinol Seiciatryddion, Cymdeithas Seicolegol Prydeinig, NICE, sefydliad Prydeinig Anableddau Dysgu a Llywodraeth Cymru.
- Gweler dolenni o dan 'E. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth? – tudalen 43

D. Beth sydd yn cael ei wneud?

- 4.9 Mae yna sawl enghraifft ledled Cymru yn dyddio'n ôl ddegawdau lle mae darparwyr trydydd sector yn cael eu gyrru gan werthoedd wedi datblygu tai cyffredin o ansawdd da yng nghymunedau cartref pobl ac wedi gweithredi'r elfennau allweddol o gefnogaeth o ansawdd uchel a ddisgrifir uchod. Er enghraifft, mae'r arolwg cenedlaethol o ofal a chefnogaeth i bobl gydag anabledd dysgu a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2016 yn cynnwys nifer o enghreifftiau: <https://careinspectorate.wales/national-inspection-care-and-support-people-learning-disabilities>
- 4.10 Nododd yr adroddiad yma hefyd y twf mewn gwybodaeth o ran PBS gan esgor ar arfer o ansawdd uchel a chanlyniadau cadarnhaol. Argymhellodd bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn rhannu arfer gorau i sicrhau gweithrediad mwy cysomn o PBS.
- (Gweler hefyd Cwestiwn 10 - Sut ydych chi'n comisiynu gwasanaethau effeithiol i bobl gydag anabledd dysgu yn cynnwys y rhai gydag anghenion mwy dwys - tudalen 52)

E. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

Adnoddau am ddim ar-lein:

- Canllaw a rhestr wirio United Response yn darparu gwybodaeth ac offer asesu ar gefnogaeth o ansawdd da: <https://www.unitedresponse.org.uk/what-does-good-look-like>
- Gwefan PBS Academy <http://pbsacademy.org.uk/> yn cynnig gwybodaeth, adnoddau a chanllaw ar PBS yn cynnwys nifer o offer comisiynu defnyddiol:
 - Manyleb PBS ar gyfer contractau
 - Canllaw i adnabod arfer gorau PBS i gomisiynwyr a rheolwyr gofal.
 - Dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro dapariaeth gwasanaeth PBS.

- Mae gan gwefan British Institute of Learning Disabilities (BILD) Centre for the Advancement of PBS <http://www.bild.org.uk/capbs/capbs/> gyfoeth o wybodaeth hefyd yn cynnwys tri offeryn PBS defnyddiol i gomisiynwyr, cyrff a theuluoedd sydd wedi eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru a'u datblygu gan Gymuned Arfer Ymddygiad Heriol Cymru Gyfan (CB CoP). Mae'r mesurau yn ategol ond gellir eu defnyddio'n annibynnol. Dilynwch y ddolen yma <http://www.bild.org.uk/about-bild/news-and-views/newpbsguidancewelsh/>
- Mae canllaw NG 93 NICE 'Learning disabilities and behaviour that challenges: service design and delivery' yn neilltuoel o berthnasol i gomisiynu ac mae'n benodol yn argymhell CYC <https://www.nice.org.uk/guidance/ng93/evidence/full-guideline-pdf-4788958429>
- Mae safon ansawdd NICE ar fodel gwasanaeth i bobl gydag anabledau dysgu ac ymddygiad heriol sydd i'w gyhoeddi yng Ngorffennaf 2019 hefyd yn cefnogi nifer o'r argymhellion a wneir yn y ddogfen yma ac mae'n galw ar awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd i ddewis person arweiniol i oruchwyllo comisiynu gwasanaethau yn strategol i bobl gydag anabledau dysgu a bod gan bobl gydag anabledau dysgu ac ymddygiad sydd yn herio ymarferydd arweiniol penodol.
- Mae gan y Sefydliad Ymddygiad Heriol wefan dda iawn hefyd gydag adnoddau wedi'u hanelu at ofalwyr teulu <http://www.challengingbehaviour.org.uk/>

Hyfforddiant anwytho sylfaenol mewn PBS am ddim ar-lein:

- Animiaddio byr 6 munud BILD 'An Introduction to PBS': <http://www.bild.org.uk/capbs/pbsinformation/introduction-to-pbs/>
- Cwrs e-ddysgu ymwybyddiaeth PBS yr Adran Iechyd, yn berthnasol i holl grwpiau cleientiaid hygwlwyf: <http://www.bild.org.uk/capbs/pbs-awareness-course/>

Rhan 5 Caffael arloesol a blaengar

Cwestiwn 8: Sut rydym yn datblygu prosesau caffael arloesol a blaengar?

Ateb: Sicrhau bod cydgynhyrchu a pherthnasoedd da yn ganolog i unrhyw broses.

5.1 I ateb y cwestiwn yn llawn ac i ddeall rôl cydgynhyrchu mewn perthynas â chaffael, mae angen inni atgoffa ein hunain bod caffael yn weithgaredd sydd yn dilyn dewis comisiynu i greu perthynas gyda darparydd. Rhaid i hyn fod yn briodol i destun y comisiwn, y bobl a'r cyrff dan sylw ac amgylchiadau pob person. Dyma lle mae cydgynhyrchu yn darparu gwerth – wrth benderfynu sut mae'r ffactorau hyn yn ymddangos a sut y mae modd iddyn nhw ryngweithio orau mewn cyd-destun.

5.2 Mae angen inni archwilio a herio pam bod llawer o'r arferion comisiynu cyfredol yn dilyn yr egwyddorion hyn a fynegir isod:

"[...] comisiynwyr ydy dylunwyr gwasanaethau, darparwyr ydy'r asiantwyr darparu a'r bobl a gefnogir a theuluoedd/gofalwyr ydy'r rhai sydd yn derbyn gwasanaeth" – barn a fynegwyd gan ddarparydd gofal a chefnogaeth.

5.3 Mae canoli ar y person yn galw am ddull mwy cydweithredol o weithredu rhwng y person, gofalwyr di-dâl, comisiynwyr a darparwyr, ac yn ddefnyddol cydgynhyrchu llawn o'r broses caffael a'r holl ddogfennau yn cynnwys y fanyleb, fframwaith perfformio, telerau talu, contract a gwerthuso a'r prosesau dyfarnu.

5.4 Os mai'r diben ydy comisiynu bywydau da yna rhaid i gyflawniad bywydau da fod yn amcan i'r caffael.

A. Beth ydy arfer da?

5.5 Mae tri prif faes i weithgaredd caffael:

- Cyn caffael – datblygu marchnad, ymchwil, ymgysylltiad darparydd, datblygu contract.
- Proses – cynnal proses agored, teg a thryloyw; cyfres o ddigwyddiadau sydd yn gwahaniaethu'r agweddau masnachol ac sydd yn galluogi dethol.
- Gweithredu – darparu nwyddau neu wasanaethau, monitro contract, cyflawni ar y canlyniadau dymunol.

- 5.6 Mae rhoi gormod o bwyslais ar y broses a dim digon ar cyn caffael a gweithredu yn creu'r risg o fethu'r canlyniadau dymunol. Mae buddsoddi rhagor o amser mewn cyn caffael a gweithredu yn cynyddu'r cyfle ar gyfer arfer arloesol a blaengar. Mae cael swyddogion sydd yn deall comisiynu cydgyngyrchu yn hanfodol ar gyfer caffael hyblyg ac arloesol yng Nghymru.
- 5.7 Gall darparwydd perthynas fod o unrhyw fath. Mae'n gweithio orau pan fo pawb yn deall y ffiniau ar disgwyliadau. Gall rhai perthnasoedd darparwyr proffesiynol er enghraifft fod yn gwbl wrthwynebus. Dydy hynny ddim yn golygu nad ydy pobl yn cytuno neu heb fod yn ddymunol i ddelio gyda nhw, yn hytrach bod y gwaith a gytunir i fod yn glir ei gymeriad ac yn cael ei gyflawni gan ddisgwyl canlyniadau os na chaiff ei wneud yn ôl yr hyn a gytunwyd.
- 5.8 Mae NDTi yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu perthnasoedd o ymddiriedaeth rhwng comisiynwyr a darparwyr yn hytrach nag un yn seiliedig ar gcontractio hyd braich. Maen nhw'n argymhell creu cyfleoedd cyfathrebu lleol cadarn (e.e. fforwm darparwydd, grŵp rheoli ar y cyd, rhwydweithiau cefnogi clinigol) i rannu gwybodaeth, dysgu, syniadau/cynlluniau newydd. Fe ddylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddarparwyr mewn gwasanaethau tai a llety gyfarfod staff comisiynu rheolaeth gofal a gofal cymdeithasol a thai o'r awdurdod lleol.
- 5.9 Mae NDTi hefyd yn awgrymu bod comisiynwyr yn nodi nifer fechan o ddarparwyr sydd yn ymrwymedig i berthynas hir dymor o amgylch pobl y gall eu hymddygiad herio, a gweithio gyda nhw fel partneriaid y defnyddir eu harbenigedd mewn penderfyniadau comisiynu.
- 5.10 Yn ddelfrydol dylai comisiynwyr o fewn rhanbarth neu nifer o ranbarthau gydweithredu i sefydlu rhestr o ddarparwyr achrededig ar sail ansawdd y gwasanaeth y maen nhw'n gallu ei ddarparu. Dylai'r rhestr fod yn ddigon hyblyg hefyd i alluogi darparwyr newydd i ymuno dros gyfnod o amser drwy gael eu hachredu neu eu cymeradwyo, yn hytrach na chael fframwaith anhyblyg nad yw'n galluogi darparwyr newydd i ymuno unwaith mae'r rhestr wedi ei gosod.
- 5.11 Gall darparwyr gefnogi ei gilydd mewn amrediad o ffyrdd o rannu cyfleoedd hyfforddi i gefnogi pobl. Yn chlysurol, pan fo person yn anfodlon gyda'r gwasanaeth gall perthnasoedd fethu. Lle mae angen darparwydd amgen, gallai'r darparwydd gofal a chefnogaeth sydd yn darparu gwasanaethau i bobl eraill yn yr un llety is-gcontractio'r gwasanaeth i gadw trefniadau rheolaeth yn syml tra'n ymateb i anghenion y person.

- 5.12 **Rheolau caffael.** Mae'n gwbl rhesymol bod gweithdrefnau contractau yn amddiffyn cyrff drwy lywodraethu yr hyn a ganiateir yn gyffredinol mewn caffael. Rhaid diweddarau'r rheolau yma yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi. Rhaid i bobl mewn cyrff hefyd allu gwybod beth ydyr rheolau, pa mor bell y mae modd iddyn nhw fynd o fewn ffiniau (sydd yn gallu symud), lle mae'n rhesymol herio rheol a lle nad ydy hi'n rhesymol. Yn gyffredinol mae hyn yn golygu bod rhaid defnyddio Rheolau Contractio a Chaffael (PCR2015 neu 'Rheoliadau UE') i ddechrau ond gellir sefydlu rhyddid newydd sylweddol ar gyfer comisiynu a chaffael drwy reolau lleol, er enghraifft ar gyfer cytundebau fframwaith.
- 5.13 **Rheolau ar gyfer cytundebau fframwaith.** Mae'r rhain yn cynrychioli dull cyfleus o gydgasglu caffael gwerth isel a chytuno ar delerau ar gyfer trafodion lluosog. Mae fframweithiau yn gytundebau 'caeedig' a ddylai fod yn destun proses gystadleuol yn rheolaidd. Oherwydd hyn, mae'n nodweddiadol bod y rheolau yn cyfyngu ar hyd fframwaith i bedair blynedd ar y mwyaf, yn cynnwys unrhyw gyfnod dewisol o estyniad. Yn andffodus cyfeirir yn aml at gytundebau fframwaith fel 'contractau' er nad ydyn nhw yn gontractau. Mewn cytundeb fframwaith, caiff y contract ei ffurfio pan fo pob archeb unigol yn cael ei gosod; mae'r fframwaith yn amlinellu'r telerau. Mae'n bwysig bod comisiynwyr yn deall hyn oherwydd gall contract fod o unrhyw hyd ac felly yn sylweddol hirach na phedair blynedd. Mae rheol sydd yn datgan 'hyd contract ar bedair blynedd ar y mwyaf' mewn gwirionedd yn cyfeirio at fframweithiau ac nid at gontractau.
- 5.14 Mae system brynu ddeinamig (neu DPS) yn ei hanfod yn fframwaith electronig sydd yn 'agored', hynny ydy gall darparwyr ymuno gyda neu adael fframwaith ar unrhyw adeg. Fe fydd y rheolau yn wahanol ar gyfer y math yma o fframwaith. Gall y dull yma fod ar ffurf proses achredu yn seiliedig ar brofiad hanesyddol y gall comisiynwyr gynnig mân gystadlaethau yn ei herbyn i gydweddu gyda darparydd neilltuol gyda chleient neu gleientiaid.
- 5.15 Mae'r dechnoleg yma yn galluogi dull o weithredu mwy soffistigedig gan greu proses cydweddu symlach a chyflymach, o bosib wedi'i threfnu fel 'catalog' neu gyfres o 'lotiau' i bobl gydag anghenion gwahanol. Fe fyddai'r broses ddyfarnu yn cael ei symleiddio, yn cymryd llai o amser ac mae dyfarniadau uniongyrchol heb fân gystadleuaeth yn haws i'w cyflawni.

5.16 Argymhellir contract tymor hirach i roi parhad mewn gofal gan ddarparwydd heb y perygl o newid darparwydd yn ddiangen. Dydy'r Rheoliadau Contract Cyhoeddus (PCR) ddim yn pennu unrhyw cyfnod contract mwyaf ac felly mae contract o tua 20 mlynedd yn bosibl. Os caiff y contract ei drafftio'n gywir yna gellir cynnwys darpariaethau egwyl, amrywiadau gwasanaeth ac adolygiadau prisiau sydd yn gallu cefnogi newidiadau neu amrywiadau er budd pawb (yn cynnwys terfynnu trefniadau yn gynharach).

5.17 Ystyriwyd gwahanol ddulliau caffael a gwasanaethau caffael 'cyffyrddiad ysgafn' yn fanwl yn yr Atodiad Cyfreithiol i'r Pecyn Cymorth Gofal Cartref: <https://www.wlga.gov.uk/introduction-to-the-home-care-toolkit>

5.18 Pa bynnag ddull a fabwysiadir, mae'r Rheolau Caffael a Chontractio (PCR) yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw un o'r uchod gael eu cymryd i ystyriaeth (gweler rheoliad 76(8) ac argymhellir yn gryf y dylai'r broses caffael a'r dogfennau ystyried sut i gynnwys yr ystyriaethau hyn:

- Yr angen i sicrhau ansawdd, parhad, hygyrchedd, fforddiadwyedd, argaeledd ac ehangder gwasanaethau.
- Anghenion penodol gwahanol gatergorïau o bobl.
- Cynnwys a grymuso pobl.
- Arloesi.

5.19 **Materion gweithlu.** Cynhaliwyd nifer o astudiaethau ymchwil yng Nghymru a Lloegr yn edrych ar effaith methodolegau caffael ar delerau ac amodau, recriwtio a chadw gweithlu. Fe fydd disgwyl i bob corff sydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, naill ai yn uniongyrchol neu drwy grantiau/contractau, lofnodi eu Cod Ymarfer ar gyflogaeth foesebol mewn cadwynni cyflenwi.

5.20 Dydy contractau tymor byr (1-4 blynedd) ddim yn cynnig cynaliadwyedd busnes i ddarparwyr. Gall cyflogwyr sydd yn gorfod ystyried costau diswyddo ac/neu TUPE wrth gyflwyno unrhyw dendr adeiladu canran gweddill i liniaru yn erbyn risgiau ariannol o'r fath. Maen nhw hefyd efallai yn llai tebygol o gynnig contractau cyflogaeth deniadol i'w gweithwyr. Yn ei ragair i'r Cod Ymarfer uchod, dywedodd Mark Drakeford AC:

"Mae arferion cyflogaeth da, sydd yn grymuso ac yn gwobrwyo gweithwyr, yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl [...] yng Nghymru ac yn eu tro, yn esgor ar wasanaethau [...] o well ansawdd. Gall arferion gwael – a hyd yn oed anegwyddorol – fel y defnydd annheg o gontractau oriau sero, arwain at ysbryd isel a throsiant uchel ymysg staff"

5.21 Fe fydd ystyriaeth bellach yn cynnwys ystyried manteision cymunedol, y cyfeirir yn gynyddol ato mewn iechyd a gofal cymdeithasol fel 'gwerth cymdeithasol'. Mae'n ddyletwydd ar gomisiynwyr o dan Rhan 2, Adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i sefydlu trefniadau sydd yn hyrwyddu cynnydd mewn cyfleoedd ar gyfer cyrff gwerth cymdeithasol (a ddiffnir yn y Ddeddf fel y trydydd sector, di-elw, menter cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol ac/neu cyrff a arweinir gan aelodau) i ddarparu gwasanaethau gofal a chefnogi.

B. Beth allaf ei wneud?

5.22 Fe ddylai pobl, gofalmwr di-dâl a'u teuluoedd holi eu hunain:

- Sut ydw i'n gallu cymryd rhan yn y broses caffael ar gyfer fy nghefnogaeth?
- Fydd rhywun yn esbonio sut mae'n gweithio?
- Sut fydd yn effeithio arna'i a fy nheulu?
- Pa mor hir fydd y cyfan yn ei gymryd?

5.23 Fe ddylai Comisiynwyr:

- Darparu gwybodaeth glir sydd yn esbonio'r broses caffael mewn iaith ddealladwy.
- Datblygu amrediad o ddewisiadau creadigol i gaffael gwasanaethau yn cynnwys taliadau uniongyrchol a threfniadau prynu deinamig.
- Datblygu modelau cydgynhyrchu a chydweithredol o gaffael yn seiliedig ar berthnasoedd da gyda darparwyr.
- Osgoi'r cysyniad mai "comisiynwyr ydy dylunwyr gwasanaethau, darparwyr ydy'r asiantwyr darparu a phobl a gefnogir a gofalmwr di-dâl ydy'r rhai sydd yn derbyn gwasanaeth."
- Edrych ar enghreifftiau o arfer da a nodi'r potensial ar gyfer eu hardal.

5.24 Fe ddylai darparwyr:

- Datblygu perthnasoedd da gyda chomisiynwyr i hyrwyddo cydgynhyrchu a dulliau cydweithredol tuag at gaffael.
- Rhannu eu blaenoriaethau a chynlluniau busnes yn agored gyda chomisiynwyr i gefnogi datblygiad marchnad i ddiwallu anghenion y boblogaeth.
- Sicrhau bod blaenoriaethau datblygu gwaith yn ganolog i'w cynllunio busnes a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu strwythurau costio ac yn cael ei fynegi yn y broses caffael. Mae bod yn agored am oblygiadau cost yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer perthnasoedd tryloyw gyda chomisiynwyr.

C. Beth sydd wedi cael ei wneud?

5.25 **Perthnasoedd hawddgar darparwyr.** Gall darparwyrdd gofal a chefnogaeth rhywun gael ei gontractio ar sail hir dymor, heb aildendro cyfnodol, ag eithrio mewn amgylchiadau cytun. Rhaid deall yr amgylchiadau hyn ar y cyd os ydyn nhw i fod yn deg. Mae hyn yn cynnig cryn dipyn o ryddid yn natur y ddarpariaeth ac mae'n ddull hawddgar o gaffael. Mae cydgyhyrchu yn annog canlyniadau da ac yn lliniaru risgiau drwy wneud y fargen yn benodol, rhagweld anghenion a disgwyliadau pawb dan sylw. Gall gymryd mwy o ymdrech i ddechrau ond mae'n talu ar ei ganfed yn y ddarpariaeth a'r defnydd hir dymor o wasanaethau. Mae newid yn digwydd dim ond pan fyddai'r holl bartion yn rhesymol eisiau newid beth bynnag.

D. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Pecyn cymorth gyda chanllaw comisiynu i blant gydag anghenion cymhleth. Comisiynu yn seiliedig ar berthnasoedd:
<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1766>
- Atodiad Cyfreithiol i'r Pecyn Cymorth Gofal Cartref:
<https://www.wlga.gov.uk/introduction-to-the-home-care-toolkit/>
- Cod Ymarfer ar gyflogaeth moesegol mewn cadwynni cyflenwi
<https://gov.wales/topics/improvingservices/better/vfm/code-of-practice/?skip=1&lang=en>
- Rheolau Caffael a Chontractio (PCR2015 neu 'Rheoliadau UE'):
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/contents/made/>

Rhan 6 Comisiynu strategol

Cwestiwn 9: Beth ydy comisiynu strategol?

Ateb: Dylai dulliau wedi'u canoli ar y person hysbysu a gyrru gweithgareddau comisiynu strategol.

6.1 Dylai'r broses gomisiynu gael ei gyrru gan sgysiau 'beth syn cyfrif' sydd yn digwydd rhwng gweithwyr proffesiynol, pobl a gofalwyr di-dâl o ran llesiant canlyniadau personol.

6.2 Mae comisiynu strategol yn cynnwys:

- deall anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth
- y gwerth am arian a gynnigir gan y dewisiadau cyfredol ar gyfer diwallu anghenion
- nodi dewisiadau datblygiadau gwasanaethau byr i hir dymor i ddiwallu anghenion.

Fe'i hysbysir gan

- dadansoddiad o anghenion a'r galw am wasanaethau
- dealltwriaeth drylwyr o amodau'r farchnad yn lleol, yn cynnwys heriau gweithlu a chostau darpariaeth cynaliadwy.

6.3 Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau comisiynu strategol sydd yn gweithredu fel canllaw i gomisiynwyr y cyfeirir ato isod. Does dim gwerth mewn ailadrodd y negeseuon a gyflwynwyd eisoes ond mae'n werth atgyfnerthu rhai negeseuon sydd yn berthynol i'r canllaw yma ac mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 5 Comisiynu Strategol ar dudalen 73.

A. Beth ydy arfer da?

6.4 Mae Cylch Comisiwn IPC yn darparu ffordd o ddeall y gweithgareddau yn y broses o gomisiynu ac yn enwedig y camau dadansoddi, cynllunio, darparu ac adolygu. Datblygir hyn ymhellach yn Atodiad 5 Comisiynu Strategol ar dudalen 73 a dogfennau comisiynu'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol y cyfeirir atyn nhw isod.

6.5 Mae datblygu Datganiad Sefyllfa Marchnad (DSM) yn rhan hanfodol o'r dull strategol tuag at gomisiynu sydd yn seiliedig ar ddadansoddi data, anghenion a chyffredinolrwydd. Cyfeirir at y math o ddata sydd angen ei gasglu yn Atodiad 5 Comisiynu Strategol ar dudalen 73

- 6.6 Fe fydd DSM yn darparu gwybodaeth ar y dewisiadau dewisol ar gyfer datblygu cefnogaeth i wasanaethau byw. Yn ogystal â darparu'r wybodaeth yma mae modd iddyn nhw hefyd ddarparu syniad o'r modelau gofal nad ydyn nhw bellach yn dymuno eu comisiynu neu yn eu gorffen yn raddol. (Gweler Atodiad 5 Comisiynu Strategol – 73)
- 6.7 Mae'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brookes University (IPC) wedi cyhoeddi A Good Practice Checklist for Learning Disability Market Position Statements (2017).
- 6.8 Y neges bwysicaf i ddarllenwyr y canllaw yma ydy bod ymgysylltiad, cyfranogiad a chysylltiad yn ffactorau hanfodol ym mhob cam o'r broses gomisiynu ac yn benodol ar y cam strategol. Mae defnyddio egwyddorion llais, dewis a rheolaeth yr un mor berthnasol ar y lefel strategol uwch ag y mae ar y cam cynllunio wedi'i ganoli ar y person

B. Beth allaf ei wneud?

- 6.9 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn gofal a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:
- Sut ydwi i'n callu cymryd rhan mewn comisiynu strategol?
 - Pa fforymau a grwpiau sydd yn bodoli yn fy ardal?
 - Pwy ydy'r bobl allweddol i siarad â nhw?
 - Oes yna unrhyw ddogfennau perthnasol y gallwn gadw golwg amdany'n nhw allai fy helpu?
- 6.10 Fe ddylai Comisiynwyr:
- Darparu gwybodaeth glir sydd yn esbonio strwythurau comisiynu strategol.
 - Cynnwys pobl a gofalwyr di-dâl mewn cyfarfodydd allweddol sydd yn dylanwadu ar gomisiynu strategol.
 - Datblygu modelau cydgynhyrchu a chydweithredol o gomisiynu strategol.
- 6.11 Fe ddylai darparwyr:
- Ymgysylltu gyda'r holl drefniadau llywodraethiant comisiynu strategol perthnasol
 - Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar eu gweithgaredd i ddylanwadu ar gomisiynu strategol yn y dyfodol.

C. Beth sydd yn cael ei wneud?

6.12 Mae Rhaglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i gael yr wybodaeth angenrheidiol i allu cynllunio gwasanaethau yn gywir ac yn briodol er mwyn diwallu anghenion pobl gydag anabledd dysgu. Mae'n cynnwys argymhelliad i ystyred y dewis i ddatblygu arsyllfa data ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu.

D. Lle ydw i'n cael cyngor?

- Gwasanaethau Comisiynu Strategol Llety i oedolion gydag anableddau dysgu (Archwilydd Cyffredinol Cymru) . Mae awdurdodau lleol angen data ariannol a phoblogaeth o well ansawdd i sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau mwyaf gwybodus . <http://www.audit.wales/strategic-commissioning-learning-disabilities>
- Canllaw Arfer Da'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol: comisiynu gwasanaethau i bobl gydag anableddau dysgu <https://www.wlga.wales/commissioning-guidance-for-people-with-learning-disabilities>
- Canllaw Arfer Da'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar Gomisiynu yn Integredig Gwasanaethau i Deuluoedd, Plant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Cymhleth <https://www.wlga.wales/guidance-for-regional-partnership-boards-integrated-commissioning-of-services-for-families-children-and-young-people-with-complex-needs>

Cwestiwn 10: Sut ydych chi'n comisiynu gwasanaethau effeithiol i bobl gydag anabledd dysgu yn cynnwys y rhai gydag anghenion dwysach?

Ateb: Comisiynu integredig a chydweithredol.

6.13 Fe ddylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ystyred dull integredig o gomisiynu pob ffurf o gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau byw. Gall hyn fod yn faes lle gall partneriaethau ffurfiol a chronfeydd wedi'u cronni wneud cyfraniad cadarnhaol.

6.14 Fe ddylai'r BPRh greu trefniadau rheoli priodol i sicrhau dull integredig o gomisiynu gwasanaethau i bobl gydag anabledd dysgu. Fe fydd hyn yn delio gyda'r pryderon a fynegwyd yn ddiweddar mewn adroddiad diweddar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru:

"Er gwaethaf y cynnydd mewn sawl ardal, rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud rhagor i integreiddio gwasanaethau a datrys nifer o heriau cymhleth os ydyn nhw'n mynd i gyflawni'r uchelgais o wasanaethau cynaliadwy'n seilledig ar lety." (Comisiynu strategol gwasanaethau llety i oedolion gydag anableddau dysgu).

6.15 Mae angen dull integredig i ymateb i anghenion pobl sydd yn herio gwasanaethau lle mae angen penderfyniadau amserol i gynyddu cefnogaeth i osgoi methiant mewn gwasanaethau a lleoliad mewn amgylcheddau mwy cyfyngiadol a drud.

A. Beth ydy arfer da?

6.16 Roedd Agosach i Gartref (C2H) yn gydweithrediad arolesol anffurfiol rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector yn ardal Bae'r Gorllewin yn ne ddwyrain Cymru oedd yn anelu at delio gyda'r problemau yma drwy gefnogi pobl gydag anabledd dysgu sydd ag ymddygiadau sy'n herio i fyw yn eu cartrefi eu hunain mewn cymunedau lleol.

6.17 Sefydlwyd y cydweithrediad yma yn 2012 rhwng y pedwar comisiynydd statudol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU), awdurdodau lleol Abertawe, Nedd Port Talbot a Phen-y-bont.

- 6.18 Cyllidwyd y prosiect drwy gyllidebau referiw oedd eisoes yn bodoli. Y prif nod oedd i'r comisiynwyr anabledd dysgu arweiniol yn ABMU a'r tri awdurdod lleol gydweithio i gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol gwell, lleol yn benodol i bobl gydag anabledd dysgu ac ymddygiad heriol dwys oedd yn ategu BPS (gweler Rhan 4 Cwestiwn 7) mewn modd rhagweithiol. Yr awdurdodau lleol oedd yn dal y rôl gomisiynu arweiniol a lluniwyd cytundeb anffurfiol gyda chomisiynwyr iechedd anabledd dysgu i rannu costau gyda golwg ar gyflawni partneriaeth a gytunwyd yn ffurfiol o dan adran 333 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 gyda' r posibilrwydd o gronni cyllidebau yn y dyfodol.
- 6.19 Canolbwyntiodd y bartneriaeth ar gomisiynu llety a chefnogaeth gyda thai a ddarparwyd gan ddau landlord cofrestredig cymdeithasol (Cymdeithas Tai First Choice a Gwalia) a darparwyd cefnogaeth gan ddarparwyr gofal cymdeithasol oedd yn gymwys mewn PBS a Chefnogaeth Weithredol.
- 6.20 Roedd yn ddull seiliedig ar denantiaeth a chefnogaeth yn cael ei darparu ar wahân, ac roedd sawl mantais i hyn:
- Sicrwydd deiliadaeth i denantiaid.
 - Hyrwyddo'r ethos o annibyniaeth wedi'i ganoli ar y person, cynhwysiant a bywyd o ansawdd gwell, a gall gynrychioli mwy o effeithlonrwydd cost.
 - Roedd gan yr holl breswylwyr denantiaethau ac roedd angen personoleiddio'r tai a ddewiswyd a'u gwneud yn gartrefol.
 - Darparu amgylchedd yn gyfoethog mewn gweithgareddau nodweddiadol hawdd i'w defnyddio.
 - Wedi'u lleoli yng nghymunedau pobl fel bod modd cynnal cyswllt teulu ac integreiddio cymdeithasol.
- 6.21 Y gwersi a ddysgwyd. Ffactor allweddol mewn llwyddiant lleoliad ydy adnabod pobl mor gynnar â phosibl. Mae adnabod cynnar yn hwyluso gwell asesu ar y cyd, nodi grwpiau cydnaws a chynllunio manwl i ddiwallu anghenion y bobl fel bod modd teilwra gwasanaethau yn ofalus. Mae hyn yn lleihau amhariad a thrallod tra'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gael pontio llyfn. Gall hefyd helpu i leihau bylchau a chostau o ganlyniad i hynny.
- 6.22 Mae angen i brosesau cynllunio lleol fod yn fwy cadarn fel bod gwybodaeth briodol am anghenion unigol yn gywir ac ar gael yn hawdd. Er mwyn cyflawni hyn mae angen dod â'r holl randdeiliaid, yn cynnwys gofawyr di-dâl, at ei gilydd yn gynnar i hwyluso cydgyhyrchu effeithiol.

- 6.23 Fe fyddai delio gyda rhwystrau i sefydlu cyllidebau wedi'u cronni a gwneud penderfyniadau ariannol cliriach ar gyllido refeniw yn osgoi anghydfodau maith rhwng partneriaid iechyd ac awdurdodau lleol a hyrwyddo mwy o bwyslais ar gydweithio effeithiol yn ymarferol. Fe fyddai fformat cytundeb clir yn ateb i hyn ac yn sefydlu rolau a chyfrifoldebau tryloyw clir.
- 6.24 Mae comisiynu traddodiadol yn adweithiol; mae'n ffitio pobl i leoedd gwag sydd eisoes yn bodoli. Mae comisiynu rhagweithiol cynlluniau newydd ar gyfer pobl a nodwyd fel yn y fenter Agosach i Gartref yn wahanol. Mae'n galw am ddull wedi'i ganoli ar y person manwl o asesu angen i ddylunio pecynnau cefnogi unigol gofalus ac amgylchedd ffisegol. Doedd rheolaeth prosiect cynlluniau potensial ddim yn glir ar adegau, oedd yn achosi rhai problemau. Mae nodi rheolwyr prosiect i gydgyssylltu cymhlethdod y gwaith datblygu yma yn hanfodol.
- 6.25 Yn gysylltiedig gyda'r pwynt uchod, fe fyddai contractio'n gynharach gyda'r darparydd gofal cymdeithasol yn welliant. Fe fyddai dirprwyo gwaith datblygu i ddarparwyr yn gynharach yn cynrthwyo'r broses gynllunio fanwl ac yn gwneud y mwyaf o bontio llwyddiannus.
- 6.26 Fe fyddai mwy o eglurder a chysondeb yn rolau a chyfrifoldebau'r rheolwr gofal a'r cydgysylltydd iechyd hefyd yn gymorth i weithio integredig mwy effeithiol.
- 6.27 Ni ellir gorbwysleisio'r rôl allweddol a chwaraeir gan y Tim Ymddygiad Arbenigol. Mae arbenigedd PBS wrth gynnal asesiad swyddogaethol, cydgynhyrchu cynlluniau PBS gyda rhanddeiliaid, dylunio a darparu hyfforddiant staff pwrpasol yn hanfodol, a sefydlu meini prawf clir i gynyddu sgiliau darparydd cyn lleihau'r gefnogaeth yma.
- 6.28 Yn gysylltiedig gyda'r pwynt uchod, mae angen i ddarparwyr cefnogaeth fod yn hyddysg yn y dull PBS, ac felly mae angen i strategaethau sefydliadol ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau staff ac ar ddatblygu arweinwyr ymarfer fel bod PBS wedi'i wreiddio mewn arferion cyffredin.
- 6.29 Mae angen monitro contractau ar y cyd ac yn systematig, a chynnwys mesurau yn canolbwyntio ar brosesau a chanlyniadau PBS.
- 6.30 Fe fyddai datblygu proses ysgrifenedig glir ar gyfer yr holl weithgareddau, rolau a chmau yma yn ganllaw gwerthfawr i fentrau tebyg yn y dyfodol.

- 6.31 Mae cyfaddasrwydd yn ei hanfod yn anodd i'w gyflawni, ac felly dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu mwy o amrywiaeth o fodolau, fel cynlluniau heb fod yn ymgasglu (h.y. cefnogi pobl gyda a heb ymddygiad heriol gyda'i gilydd, a chynlluniau un neu ddau berson).
- 6.32 Fe ddylid adeiladu gwerthusiadau i ddatblygiadau newydd fel bod modd asesu manteision cost gwahanol fodolau yn fwy cywir.

B. Beth allaf ei wneud?

- 6.33 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn gofal a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:
- Oes trefniadau integredig cadarn yn bodoli ar draws timau iechyd a gofal cymdeithasol?
 - Oes gan gomisiynwyr drefniadau i wneud i bopeth weithio mewn dull cydgysylltiedig?
 - Ydw i'n hapus lle rydw i'n byw a gydag ansawdd y gefnogaeth rwyf yn ei dderbyn?
 - Pwy sydd yn gyfrifol am gydlynu fy nghefnogaeth?
 - Ydw i'n gallu cymryd rhan yn y broses gynllunio?
- 6.34 Fe ddylai comisiynwyr:
- Nodi anghenion pobl gydag anghenion cymhleth ymlaen llaw er mwyn cynllunio'n well (h.y. comisiynu rhagweithiol).
 - Cronni adnoddau, yn ariannol ac o ran staffio.
- 6.35 Mae Rhan 9 o DGCLI 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i alw am drefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i ddibenion cyflawni eu swyddogaethau.
- 6.36 Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn cynnwys gofyniad penodol i 'gyrff partneriaeth ar gyfer pob trefniant partneriaeth sefydlu a chynnal cyllid cronedig'.
- 6.37 Fe ddylai darparwyr cenfogaeth neu lety:
- Datblygu rhaglenni datblygu staff i gyflwyno medrusrwydd a sgiliau mewn PBS.
 - Ymgysylltu gyda threfniadau fframwaith mewn partneriaeth gyda darparwyr a chomisiynwyr eraill.
 - Sicrhau bod systemau'n bodoli i gefnogi dulliau wedi'u canoli ar y person.

C. Beth sydd yn cael ei wneud?

6.38 Mae yna amrywiadau yn y dull Agosaf i Gartref ar draws Cymru sydd yn gweithredu ar sail rhanbarthol ac sydd ar wahanol gamau datblygu. Ond, cynhaliodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg werthusiad o'r prosiect Agosaf i Gartref Bae'r Gorllewin ac mae'r prosiect yn parhau.

D. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

6.39 Canllaw Arfer Da: Comisiynu Integredig o Wasanaethau i Bobl gydag Anableddau Dysgu <https://www.wlga.wales/commissioning-guidance-for-people-with-learning-disabilities>

6.40 Canllaw Arfer Da i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar Gomisiynu Integredig o Wasanaethau i Deuluoedd, Plant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Cymhleth – Pecyn Cymorth Medi 2018
<https://www.wlga.wales/guidance-for-regional-partnership-boards-integrated-commissioning-of-services-for-families-children-and-young-people-with-complex-needs>.

Cwestiwn 11: Sut ydych chi'n gwybod eich bod yn gwella llesiant?

Ateb: Drwy fesur canlyniadau.

- 6.41 Mesur canlyniadau ydy'r unig ffordd o wybod bod pobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd yn byw bywydau da yn y gymuned ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Ond, mae hwn yn faes cymhleth ac mae nifer o fentrau wedi cael eu datblygu i ymateb i'r angen yma.
- 6.42 Roedd datblyu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn ofyniad Rhan 2 Adran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r fframwaith yn disgrifio canlyniadau llesiant i ddinasyddion ac yn adeiladu ymhellach ar y canlyniadau llesiant cenedlaethol a ddisgrifir yn y datganiad llesiant drwy nodi'r 52 dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn berthynol i bob maes ym mywyd person. Caiff y rhain eu diffinio fel:
1. Sicrhau hawliau.
 2. Llesiant corfforol ac iechyd meddwl ac emosiynol.
 3. Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
 4. Addysg, hyfforddiant a hamdden.
 5. Perthnasoedd domestig, teulu a phersonol.
 6. Cyfraniad a wneir i gymdeithas.
 7. Llesiant cymdeithasol ac economaidd.
 8. Addasrwydd llety byw.
- 6.43 Fe fydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio gyda Rhaglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu canllaw manylach ar ddatblygiad dull o fesur canlyniadau mewn perthynas â llety a chefnogaeth.
- 6.44 Cyfeirir at ganlyniadau llesiant yn y Canllaw Arfer Da: Comisiynu Integredig o Wasanaethau i Bobl gydag Anableddau Dysgu a Chomisiynu Integredig o Wasanaethau i Deuluoedd Plant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Cymhleth er y cydnabyddir bod angen gwneud gwaith pellach.
- 6.45 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer cefnogaeth yn berthynol i dai wedi bod yn defnyddio fframwaith canlyniadau am sawl blwyddyn ac mae'n werth cyfeirio ato wrth ddatblygu systemau mesur canlyniadau lleol.

A. Beth allaf ei wneud?

6.46 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn gofal a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:

- Sut ydych chi'n gwybod bod y canlyniadau rwyf wedi eu nodi wedi cael eu diwallu?
- Pa ddulliau sydd yn cael eu defnyddio i fesur fy nghanlyniadau?

6.47 Fe ddylai comisiynwyr:

- Datblygu mesuriadau canlyniadau sydd yn cydymffurfio gyda chanllaw cenedlaethol.

6.48 Fe ddylai darparwyr cefnogaeth a llety:

- Gweithio'n agos gyda phobl, gofalwyr di-dâl a chomisiynwyr i ddatblygu a gweithredu mesuriadau canlyniadau yn seiliedig ar ganllaw cenedlaethol.

B. Beth sydd yn cael ei wneud?

6.49 Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru yn gwneud gwaith ar weithredu Rhan 2 Adran 8 o DGCLI 2014. Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddatllygu eu dulliau gweithredu ar y fframwaith ac mae angen gwaith pellach ar gyfer gweithrediad llawn.

6.50 Yn 2014 nodwyd 5 ardal beilot i brofi cofnodi ac adrodd yn erbyn canlyniadau personol. Llywiodd y peilot y canllaw ar gofnodi canlyniadau personol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016.

https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Recording_Measurement_of_Personal_Outcomes.pdf

C. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Rhan 2, Adran 8 DGCLI 2014 Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol <http://gov.wales/docs/dhss/publications/171219frameworken.pdf>
- Mesur llesiant cenedlaethol: Adroddiad ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth , 2016–7 <https://gov.wales/docs/dhss/publications/171219frameworken.pdf>
- Cofnodi Mesur Canlyniadau Personol Rhan 3 Canllaw Canlyniadau: (Cyhoeddwyd dan yr Offeryn Aseiad a Chymhwysedd Cenedlaethol) https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Recording_Measurement_of_Personal_Outcomes.pdf

Cwestiwn 12: Sut y gallwch gynnal gwasanaethau cynaliadwy a chost effeithiol i gefnogi bywyd da?

Ateb: Sicrhau methodoleg cyson a chadarn i gostio llety a chefnogaeth i bobl gydag anabledd.

- 6.51 Mae'r sector gofal cymdeithsol wedi wynebu anawsterau ariannol dwys yn y blynyddoedd diweddar. Tra bod rhaid inni fod yn realistig am allu cyllid cyhoeddus i gyllido gwasanaethau, rhaid inni hefyd gydnabod y risgiau o anwybyddu'r heriau hyn a sut y maen nhw'n gallu effeitho ar allu darparwyr i ddarparu ansawdd gwasanaethau y mae pob un honom yn ei ddigwyl.
- 6.52 Y rhwystr mwyaf sylweddol i gyflawni ein dyheadau ar gyfer datblygu cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau byw ydy adnoddau ariannol. Fe fyddai'n ddefnyddiol felly deall costau cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau byw ar draws Cymru ynghyd â chyfraniadau yr amrywiol ffrydiau cyllido.
- 6.53 Mae sawl llwybr i gyllido pecyn cefnogi person. Caiff y rhain eu harchwilio yn Atodiad 6 Dewisiadau cyllido potensial i gefnogi rhywun yn eu llety ar dudalen 79.

A. Beth ydy arfer da?

- 6.54 Y gost mwyaf i ddarparwyr ydy'r gweithlu. Nid diben y ddogfen yma ydy pennu gofynion y gweithlu i ddarparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer gwasanaethau byw. Ond, mae ansawdd y gwasanaeth i bobl, yn aml gydag anghenion dwys, yn dibynnu ar ansawdd y staff. Mae hyn yn ymwneud â gallu recriwtio, cadw a datblygu gweithlu medrus o ran staff rheng flaen a rheolwyr. Hefyd, os ydy staff i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, mae angen cymryd camau i ddarparu cyflog byw real cyn gynted â phosibl.
- 6.55 Mae Rheoliad ac Arolwg Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) yn datgan o dan reoliad 14 'Addasrwydd y Gwasanaeth' na ddylai'r darparydd gwasanaeth ddarparu gofal a chefnogaeth i rhywun oni bai eu bod wedi penderfynu bod y gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth y person. Mae'n amlwg bod rhaid i'r darparwyr fodloni eu hunain bod ganddyn nhw 'r gweithlu priodol i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol, nawr ac yn y dyfodol.

6.56 Rhaid cydnabod rhai egwyddorion sylfaenol:

- Fe ddylai comisiynwyr ddeall costau darparu gwasanaethau a rhesymeg i esbonio eu dull o osod ffioedd. Fe fyddai system gosod ffioedd yn galluogi comisiynwyr i brisio contract ar sail rhesymegol, yn adlewyrchu beth maen nhw'n gallu ei fforddio ac amrywiol ystyriaethau cynhyrchu gwerth (fel cyflogau teg ac atyniadol). Yna fe fyddai modd iddyn nhw ddyfarnu contractau ar sail ansawdd gwasanaeth ac enw da yn hytrach na chael eu dylanwadu'n drwn gan y maen prawf Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol (MEAT).
- Mae angen i ffioedd fod yn ddigonol i alluogi darparwyr i ddiwallu'r fanyleb a benodwyd gan y comisiynydd ynghyd â gofynion rheoleiddiol (e.e. RISCA) a gofynion cyfreithiol eraill (e.e. isafswm cyflog). Fel rheol fe fydd manylebau gwasanaeth er enghraifft yn cynnwys disgwyliadau ac/neu ofynion yn ymwneud â rheolaeth gwasanaeth a goruchwyllo staff.
Dylai'r costau felly gydnabod y gofyniad am wahaniaethau mewn cyflog rhwng rheolwyr a staff i hwyluso recriwtio a datblygu rheolwyr da.
- Dylai fod gan ddarparwyr resymeg i esbonio eu dull o osod ffioedd. Fe ddylen nhw fod yn agored a thryloyw am eu holl gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cynnwys gweddil, arian wrth gefn a maint elw.
- Rhaid i osod ffioedd gymryd i ystyriaeth y costau cyfredol a'r costau yn y dyfodol a wynebir gan ddarparwyr yn ogystal â'r ffactorau sydd yn effeithio ar y costau yma. Rhaid iddyn nhw hefyd ystyried y potensial ar gyfer gwell perfformiad a dulliau mwy cost effeithiol o weithio.

6.57 Efallai y byddaia comisiynwyr a darparwyr yn dymuno dilyn esiampl cartrefi gofal i bobl hŷn lle mae cytundeb i ddatblygu pecyn cymorth i gytuno ar gost gofal preswyl a nyrsio i bobl hŷn yng Nghymru. Gweler ['Let's Agrere to Agree' – pecyn cymorth i gomisiynwyr a darparwyr i gytuno ar gost gofal preswyl a nyrsio i bobl hŷn yng Nghymru 2018](#) Llywodraeth Cymru. Gellid mabwysiadu'r un dull mewn perthynas â chefnogaeth i wasanaethau byw. Gellid defnyddio modelau eraill i lywio datblygu pecyn cymorth o'r fath, er enghraifft y System Perfformiad Sicrwydd Comisiynu Gofal sydd yn cael ei redeg gan y Prosiect Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Preswyl <http://www.wales.nhs.uk/nwis/page/86372>

6.58 Gwerth pecyn cymorth o'r fath ydy y byddai yn darparu tystiolaeth o gostau ochr yn ochr gydag unrhyw drefniadau tendro. Gellid craffu ar dendrau a ganfyddir yn afrealistig ar gostau ac o ganlyniad i hynny, eu gwrthod.

- 6.59 Mae SSWBA 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cynllun sefydlogrwydd nmarchnad er bod hyn eto i'w gyhoeddi. Nid oes canllaw wedi ei gyhoeddi ond ni fyddia'n afresymol tybio y bydd angen i awdurdodau lleol nodi risgiau i sefydlogrwydd y farchnad (sefydlogrwydd darpariaeth gwasanaeth) a pha gamau sydd wedi'u cynllunio a'u cymryd i'w lliniaru.
- 6.60 Gall gweithrediad pecyn cymorth lywio adroddiad sefydlogrwydd marchnad a dangos bwriad yr awdurdod lleol i liniaru unrhyw risgiau cyn belled ag sy'n bosibl. Mae'n bosibl bod darparydd yn gweithio gyda diffyg gweithrediadol ac yn tynnu'n drwm ar arian wrth gefn sydd yn cyfrif yn erbyn unrhyw brawf o hyfywedd ariannol mewn unrhyw drefniadau aildendro yn y dyfodol. Fe fyddai'r dystiolaeth hefyd yn llywio prosesau gosod cyllidebau yn y dyfodol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 6.61 Mae gofyniad hefyd i gyflwyno trefn arolygiaeth marchnad dan arweiniad Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn eto i'w weithredu ond gall tystiolaeth o weithrediad unrhyw becyn cymorth lywio'r datblygiadau yma hefyd.
- 6.62 Mae perthnasoedd gweithio effeithiol yn cael eu hadeiladu ar hyder ac ymddiriedaeth ac mae hyn yr un mor gymwys i berthnasoedd rhwng comisiynwyr a darparwyr. Gall adrodd effeithiol ar dystiolaeth helpu i adeiladu'r hyder a'r ymddiriedaeth hynny. Fe ddylai trefniadau gosod ffioedd yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrch na'r hyn a ganfyddir gan ddarparwyr fel penderfyniadau mympwyol sydd o fudd yn unig i un ochr, helpu i wella a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol.

B. Beth allaf ei wneud?

- 6.63 Fe ddylai pobl sydd yn derbyn gofal a gofalwyr di-dâl holi eu hunain:
- Beth ydy fy nghyfraniad ariannol, os o gwbl, i ddarpariaeth fy ngwasanaeth?
 - Ydw i'n gallu darganfod pwy sydd yn cyllido fy mhecyn?
 - Oes cyfleoedd i reoli'r cyllid fy hun e.e. drwy daliad uniongyrchol? Os felly, beth ydy'r cyfradd taliad uniongyrchol yn fy ardal?
- 6.64 Fe ddylai comisiynwyr:
- Datblygu pecyn cymorth gyda phartneriaid sydd yn darparu dadansoddiad o gostau cyffredinol i ddarparu cefnogaeth i wasanaethau byw.
 - Datblygu perthnasoedd cryf gyda darparwyr er mwyn deall goblygiadau cost manylebau gwasanaeth a thrafodaethau contract.
 - Cael rhesymeg i esbonio ei sefyllfa negodi.

6.65 Fe ddylai darparwyr cefnogaeth a llety:

- Cael rhesymeg i esbonio eu dull o osod ffioedd.
- Bod yn agored a thryloyw o ran eu costau a rhannu gwybodaeth fanwl am eu trefniadau ac adnoddau sefydliadol gyda'r comisiynwyr.
- Sefydlu os oes gan y comisiynwyr gynllun sefydlogrwydd marchnad a fydd yn llywio eu cynllunio busnes.
- Sicrhau bod ganddyn nhw gynllun busnes cadarn yn y tymor canolig i hir dymor i lywio adnoddau ariannol i'r dyfodol.

C. Beth sydd yn cael ei wneud?

6.66 Mae sawl dull o ddeall costau gwasanaeth ac fe fyddai comisiynwyr yn elwa oddi wrth weithio yn agos gyda'u cydweithwyr ariannol a thimau contract. Mae gan rhanbarth Bae'r Gorllewin swyddog contractau arbenigol sydd yn defnyddio matricesau costio i dorri'r ffioedd yn llinellau cost penodol. Defnyddir hyn i drafod ac i gytuno ar gyfraddau rhesymol. Tra bod hyn yn gallu bod yn broses weithrediadol, mae'r egwyddor o ddefnyddio matrices costau yn ddefnyddiol i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng comisiynwyr a darparwyr ac i ddysgu am y goblygiadau cost i ddarparwyr.

D. Lle mae modd imi gael rhagor o wybodaeth?

- Comisiynu System Perfformiad Sicrwydd Gofal sydd yn cael ei redeg gan Prosiect Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer gofal preswyl <http://www.wales.nhs.uk/nwis/page/86372>
- 'Let's Agree to Agree' – pecyn cymorth i gomisiynwyr a darparwyr i gytuno ar gost gofal preswyl a nyrsio i bobl hŷn yng Nghymr 2018 Llywodraeth Cymru <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1806>
- Canllaw i gofrestru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-06/180606-risca-guide-en.pdf>

Rhan 7: Casgliad a'r camau nesaf

- 7.1 Er mwyn gwireddu a mynd ag egwyddorion ac argymhellion y canllaw hwn ymhellach fel nad yw'n dod yn ddogfen ddiangen, mae'n bwysig nodi beth sydd yn digwydd nesaf. Ar y sail yma, mae angen cymryd y camau canlynol:
- a. Caiff y canllaw ei lansio'n swyddogol ar 5 Mawrth 2019.
 - b. Hoffai'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol gymryd barn Grŵp Cyngori Anabledd Dysgu Gweinidogion (LDMAG) a blaenoriaethu'r canllaw hwn drwy eu rhaglen waith.
 - c. Fe fydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio gyda Rhaglen Bywyd Gwella Bywydau Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru a'r tim gweithredu i ddatblygu'r gwaith yma a sicrhau ei fod yn flaenoriaeth.
 - d. Datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu drwy Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a'r holl randdeiliaid i raeadru'r canllaw.
 - e. Nodi rhaglen gefnogi gweithrediad dilyn i fyny i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r holl randdeiliaid perthnasol i fesur effeithlonrwydd y canllaw. Fe fydd hyn yn cynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a swyddogion priodol Llywodraeth Cymru.
 - f. Fel rhan o'r rhaglen fonitro, datblygir pecyn cymorth sydd yn nodi'r holl argymhellion allweddol yn y canllaw i ddarparu cyfeiriad i'r rhanbarthau a meincnod ar gyfer cynnydd datbygiadau.
 - g. Er mwyn mesur effeithlonrwydd, argymhellir digwyddiad i ddilyn i fyny ym mis Mawrth 2020 ar gyfer holl randdeiliaid ar draws Cymru
- 7.2 Mae'r meysydd gwaith pellach a amlygwyd yn y ddogfen yn cynnwys:
- a) Datblygu mwy o ddealltwriaeth o wahaniaethau a manteision y gwahanol fodelau cefnogi.
 - b) Rhaglen Gwella Bywydau i ystyred gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiweddarau a thynhau diffiniadau ar gyfer ystadegau cenedlaethol mewn perthynas â chefnogaeth i wasanaethau byw.
 - c) Archwilio cyfraniad potensial Cysylltu Bywydau.
 - d) Datblygu protocol ar gyfer lleoliadau allan o'r sir.
 - e) Dull cenedlaethol o weithredu i ddatblygu dadansoddiad marchnad yn ogystal â datblygu datganiadau sefyllfa marchnad a fframwaith adrodd cyson i ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd fel mater o drefn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u partneriaid yn cynnwys darparwyr.

- f) Cynnal gweithdai wedi'u hwyluso'n allanol gyda chomisynwyr a darparwyr i:
- Edrych ar ddewisiadau caffael yn cynnwys y manteision a'r anfanteision.
 - Mesur dewisiadau caffael yn erbyn gwella canlyniadau i bobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd yn ogystal â defnydd effeithiol o adnoddau.
- g) Datblygu dulliau i fesur canlyniadau fel y maen nhw'n berthynol i wasanaethau byw.
- h) Datblygu pecyn cymorth i hwyluso dull rhesymegol o osod ffioedd.
- i) Datblygu mwy o ddealltwriaeth o fanteision technoleg gynorthwyol.

Atodiad 1 Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn 2016. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sydd yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw weithio i hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr di-dâl sydd angen cefnogaeth.

Mae'r canllaw hwn yn adlewyrchu egwyddorion DGCLI 2014.

Mae'r Ddeddf yn newid y sector gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:

- Mae gan bobl reolaeth dros y gefnogaeth maen nhw ei angen, gwneud penderfyniadau am eu gofal a chefnogaeth fel partneriaid cyfartal.
- Mae asesiadau cymesur yn canolbwyntio ar y person.
- Mae gan ofalwyr yr un hawl cyfartal i asesiad ar gyfer cefnogaeth â'r rhai y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw.
- Mae mynediad hawdd i wybodaeth a chyngor ar gael i bawb.
- Mae pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach.
- Mae dull ataliol tuag at ddiwlallu anghenion gofal a chefnogaeth yn cael ei ymarfer.
- Mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod at ei gilydd mewn partneriaethau strategol newydd i yrru integreiddio, arloesi a newid gwasanaeth.

Egwyddorion y Ddeddf ydy:

- Llais a rheolaeth – rhoi'r person a'u hanghenion yng nghanol eu gofal, a roi llais iddyn nhw a rheolaeth dros gyrraedd y canlyniadau sydd yn eu helpu i gyflawni llesiant.
- Atal ac ymyrraeth cynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau cynnydd angen critigol.
- Llesiant – cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chefnogaeth.
- Cydgynhyrchu – annog pobl i gymryd mwy o ran mewn dylunio a darpariaeth gwasanaethau.

Mae Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ymwneud ag asesu a diwallu anghenion pobl. Mae gan bob un God Ymarfer yn darparu canllaw, wedi'i gefnogi gan gyfraith, i helpu pobl a chyrrff i weithio oddi mewn i fframwaith newydd a grewyd gan y Ddeddf.

Pwrpas asesiad ydy gweithio gyda pherson, gofalwr a'r teulu i ddeall:

- eu galluedd a'u hadnoddau
- y canlyniadau personol maen nhw eisiau eu cyflawni
- y rhwystrau sydd yn eu hatal rhag cyflawni eu canlyniadau
- y cyfraniad y mae'r person a'r teulu neu'r gymuned ehangach yn gallu ei wneud i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Rhaid i asesiadau felly ddefnyddio dadansoddiad wedi'i strwythuro o amgylch y pump elfen asesu sydd yn ei gwneud yn ofynnol i asesydd:

- Asesu a thalu sylw i amgylchiadau person.
- Talu sylw i'w canlyniadau personol.
- Asesu a thalu sylw i unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Asesu a thalu sylw i unrhyw risgiau i'r person os na chaiff y canlyniadau eu cyflawni.
- Asesu a thalu sylw i gryfderau a galluoedd y person.

Mae'r broses asesu yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gynnal trafodaethau gyda phobl i nodi 'beth sydd yn bwysig iddyn nhw' a'r canlyniadau personol maen nhw'n dymuno eu cyflawni. Yn achos plant, rhaid iddyn nhw hefyd nodi'r canlyniadau y mae unrhyw berson gyda chyfrifoldeb rhianta yn dymuno eu cyflawni i'r plentyn.

Mae Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion) yn nodi'r canllaw canlynol:

- Dydy penderfynu ar gymhwysedd ddim yn ymwneud â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth. Mae'n ymwneud â gwarantu mynediad i ofal a chefnogaeth lle mae'r person, heb hynny yn anhebygol o gyflawni eu canlyniadau personol.
- Yn hanfodol i'r penderfyniad yma mae dealltwriaeth o ba gamau y gall y person eu cyfrannu i gyflawni eu canlyniadau, gyda chefnogaeth gofalwyr, teulu a'r gymuned lle mae hyn ar gael

Mae'n bwysig bod templedi dogfennaeth safonol iechyd a gofal cymdeithasol yn annog dull wedi'i ganoli ar y person. Ond, y ffordd y mae cyfathrebu a chynllunio yn cael eu hwyluso sydd yn allweddol i wasanaeth wedi'i ganoli ar y person.

Atodiad 2 Ystyried Galluedd Meddyliol

Ystyried Galluedd meddyliol

Mae tybiaeth cyfreithiol bod gan bob oedolyn (person 18 oed neu drosodd) alluedd ac felly yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2015 yn nodi'r egwyddorion sydd yn gymwys os oes gan berson alluedd i ddeall beth maen nhw'n ei wneud ai peidio. O ran creu neu derfynnu tenantiaeth, mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn llywodraethu unrhyw benderfyniadau ynghylch dealltwriaeth person bod hwn yn gytundeb cyfreithiol, ydyn nhw eisiau cytuno neu derfynu'r cytundeb hwnnw a'r goblygiadau os nad oes gan y tenant arfaethedig y galluedd.

Mae galluedd neu beidio rhywun yn brawf gwrthrychol. Ni ddylid trin person fel rhywun sydd yn methu gwneud penderfyniad oni bai bod yr holl gamau ymarferol wedi cael eu cymryd i'w galluogi i wneud hynny; dydy dewis annoeth ddim yn golygu nad oes gan berson alluedd. Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu fframwaith i sefydlu os es gan berson y gallu i wneud penderfyniadau am eu bywyd ac mae'n dechrau gyda'r rhagosodiad bod gan y person alluedd.

Os oes rhywfaint o amheuaeth ynghylch galluedd person i wneud dewis gwybodus, mae fframwaith cyfreithiol sydd yn gallu cefnogi'r person i ddatblygu canlyniadau a nodi gwasanaeth cefnogi priodol. Y pedwar egwyddor i'w hystyried wrth sefydlu os oes gan berson alluedd i wneud penderfyniad gwybodus ydy gallu'r person neu beidio i:

- deall yr wybodaeth a roddir iddyn hw
- cadw'r wybodaeth honno yn ddigon hir i allu gwneud y penderfyniad
- pwysu'r wybodaeth sydd ar gael i wneud y penderfyniad
- cyfathrebu eu penderfyniad. Gallai hyn fod drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu hyd yn oed symudiadau cyhyrau syml fel clipio llygad neu wasgu llaw.

Fel rheol y rheolwr achos sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso'r broses yma.

Os sefydlir diffyg galluedd ar sail un mater yn dilyn proses galluedd meddwl yna dylai asesiad lles gorau ddilyn. Lle mae llety a chefnogaeth yn ganlyniadau allweddol, fe fyddai'r rheolwr achos yn hwyluso ac yn cydlynu asesiad lles gorau. Fe ddylai hyn gynnwys yr holl bobl allweddol sydd yn adnabod y person ac sydd â dealltwriaeth dda o'u hanghenion. Fe ddylai hefyd gynnwys Eiriolydd Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA).

Dylid trefnu cyfarfod lles gorau i drafod a chytuno ar yr hyn sydd o les gorau i'r person sydd heb alluedd. Fe fydd y canlyniad yn ffurfio rhan o'r cynllun gofal a chefnogaeth ac yn helpu i benderfynu beth ydy'r dewisiadau i'r person sydd

heb alluedd. Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir ar ran person heb alluedd gael ei wneud er eu lles gorau.

Fe ddylau dulliau creadigol o weithio gyda phobl sydd gyda neu heb alluedd i gyfathrebu eu canlyniadau fod yn rhan o'r dulliau arfer da sydd ar gael i reolwyr achos, yn enwedig yng ngoleuni'r cyfyngiadau adnoddau a capasiti yn yr hinsawdd cyfredol.

Amddifadu o ryddid

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (fel y'i diwygiwyd) yn nodi mesurau diogelwch i amddiffyn person heb y galluedd i ganiatau gofal ac/neu driniaeth mewn ysbyty neu leoliad gofal os ydy triniaeth o'r fath yn amddifadu'r person o'u rhyddid

Mae'r Uchel Lys yn diffinio amddifadu o ryddid fel "*continuous supervision and control, and that the person is not free to leave*".

Fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer nodi llety priodol gyda phecynnau gofal a chefnogaeth, mae'n hanfodol ystyried y fframwaith Amddifadu o Ryddid os digwydd i'r person hwnnw gael problemau galluedd meddwl.

Mae Mesurau Diogelwch Amddifadu o Ryddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu amddiffyniad i bobl hyglwyf sydd mewn ysbytai neu gartrefi gofal mewn amgylchiadau sydd yn gyfystyr ag amddifadu eu rhyddid ac sydd heb y galluedd i ganiatau'r gofal neu'r driniaeth maen nhw ei angen.

Mae yna wahanol brosesau sydd yn berthnasol i wahanol leoliadau. Os ydy'r person yn byw neu yn mynd i fyw mewn amgylchedd preswyl, yr awdurdod lleol fydd â'r cyfrifoldeb i reoli'r broses. Os ydy person yn byw neu yn mynd i fyw mewn trefniant yn seiliedig ar denantiaeth neu berchen feddiannwr gyda lefelau sylweddol o gefnogaeth, mae angen dilyn y llwybr Llys Amddiffyn, a'r awdurdod lleol yn arwain y broses. Beth bynnag, y darparydd sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gychwyn y broses.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth Amddifadu o Ryddid cyfredol ochr yn ochr gyda'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r argymhellion allweddol wedi cael eu derbyn mewn egwyddor ond mae Llywodraeth y DU yn edrych ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Mae effaith y newidiadau hyn yn dal i gael eu hasesu ac mae gwybodaeth bellach ar gael yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2017/03/lc372_mental_capacity.pdf

Atodiad 3 Mathau o fodolau o lety

Math	Enghreifftiau o is-fathau
<p>1. Lleoliad unigol. Mae person yn byw gyda gofalwr unigol neu deulu sydd yn darparu llety a chefnogaeth mewn tai cyffredin.</p>	<p>a. Byw gyda theulu/ffrindiau b. Cysylltiadau Bywyd – byw gyda gofalwyr sydd yn gyflogedig i gefnogi'r person yn eu cartref. Gall pobl eraill sydd angen cefnogaeth rannu'r llety c. Llety gyda chefnogaeth d. Rhannu cartref</p>
<p>2. Tai annibynnol hunangynwysedig. Mae llety hunangynwysedig fel rheol heb ei gofrestru, mae amrywiol ffurfiau o ofal a chefnogaeth yn bosibl yn cynnwys rheolaeth o fewn gwasanaeth lleoliad cymysg .</p>	<p>a. Rhentu gan awdurdod lleol, landlord cymdeithasol cofrestredig, landlord preifat. b. Rhentu gan rieni. c. Is-osod lletywyr . d. Perchnogaeth llwyr. e. Rhannu perchnogaeth. f. Perchnogaeth ymddiriedolaeth.</p>
<p>3. Eiddo lleol wedi'u grwpio mewn ardal ddaearyddol fechan, yn hunangynwysedig neu yn cael eu rhannu. Adnawdd canolog sydd yn gallu bod yn gyfleusterau wedi'u rhannu ac/neu staff yn cael eu defnyddio gan y preswylwyr. Mae'r llety fel rheol wedi'i rentu a gall fod yn gofrestredig neu beidio</p>	<p>a. Craidd a chlwstwr. b. Rhwydwaith cefnogi cymunedol. c. Cymysg, rhannu a hunangynwysedig d. Cymunedau bwriadol</p>
<p>4. Safle sengl hunangynwysedig neu tai yn cael eu rhannu. Adeilad graddfa mwy gyda nifer o fflatiau neu fflatiau un ystafell neu eiddo yn cael ei rannu. Y nodwedd benodol ydy presenoldeb staff yn yr adeilad a rhywfaint o rannu cyfleusterau yn yr adeilad fel ystafell olchi, lolfa, ystafell gemau ac fel rheol swyddfa neu gyfleusterau cysgu'i mewn i staff.</p>	<p>a. Tai gwarchod. b. Fflatiau neu fflatiau un ystafell clwstwr c. Cymysg rhannu a hunangynwysedig.</p>

5. Tai a rennir bach.

Llai na 4 person cofrestredig neu heb eu cofrestru. Nodweddion ydy byw a chyfleusterau a rennir. Er gall fod yno rai cyfleusterau preifat e.e. ffwrn, ystafell ymolchi en-suite, dydy e ddim yn llety hunangynwysedig llawn. Gall staff fod yn ymweld neu yn barhaol ar y safle.

- a. Cartref gofal cofrestredig bychan.
- b. Cartref grŵp – heb ei gofrestru ond darperir gofal domestig sydd yn gofrestredig fel swyddfa ar wahân

6. Tai a rennir mawr.

Mwy yna 4 person yn byw gyda'i gilydd. Ychydig neu ddim cyfleusterau preifat. Fel rheol yn gofrestredig ac felly gyda staff cyflogedig ar y safle gyda rhywun 'ar ddyletswydd' 24 awr y dydd.

- a. Cartref gofal cofrestredig mawr.

Gellir rheoli nifer o'r mathau yma drwy rwydwaith neu wasanaeth lleol gan ddefnyddio cymysgedd o adeiladau neu fathau o ddeiliadaeth/perchnogaeth o fewn gwasanaeth cefnogi sengl.

Atodiad 4 Y prawf tenantiaeth real

Mae'r Prawf Tenantiaeth Real¹ wedi'i ddylunio i gael dealltwriaeth cyflym os ydy tenantiaeth mewn byw gyda chefnogaeth yn rhoi hawliau tenantiaeth real ai peidio. Ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer tenantaethau mewn gwasanaeth tai gyda chefnogaeth dros dro. Mae'r Prawf Tenantiaeth Real yn ei gwneud yn ofynnol i denantiaeth fod yn un go iawn fe ddylai ddiwallu 5 safon allweddol.

1. Mae cytundeb tenantiaeth yn bodoli
2. Mae gan denantiaid reolaeth dros lle maen nhw'n byw
3. Mae gan y tenant reolaeth dros gyda phwy maen nhw'n byw
4. Mae gan y tenant reolaeth dros bwy sydd yn eu rheoli a sut maen nhw'n cael eu cefnogi
5. Mae gan y tenant reolaeth dros beth sydd yn digwydd yn eu cartref.


Mae'r Prawf Tenantiaeth Real yn gofyn 11 cwestiwn i benderfynu os ydy'r denantiaeth yn un go iawn ac mae hefyd yn rhoi canllaw i sicrhau bod gan y tenant hawliau tenantiaeth real.

1. Ydy'r tenant wedi cael eu symud o'u cartref oherwydd penderfyniad gan y darparydd neu'r comisiynydd cefnogaeth?
2. Oes unrhyw un wedi cael eu rhoi yn y cartref heb ymgynghori gyda'r tenantiaid cyfredol oherwydd bod y darparydd neu'r comisiynydd cefnogaeth angen llenwi'r lle gwag?
3. Oedd gan y tenant unrhyw ddewisiadau eraill pan yn symud i'w cartref?
4. Oes yna denant sydd eisiau symud ymlaen ond sydd ddim yn derbyn y gefnogaeth i wneud hynny?
5. Ydy'r tenant wedi symud i'r tŷ heb ymgynghori gyda'r tenantiaid eraill?
6. Oes yna denant sydd yn amlwg yn anhapus yn byw gyda thenant arall?
7. Oes disgwyl i denant symud os ydy'r anghenion cefnogaeth yn newid?
8. Ydy cefnogaeth yn cael ei ddarparu ar adegau a bennir gan y darparydd cefnogaeth yn hytrach na'r tenant?
9. Oes gan y tenantiaid fynediad cyfyngedig i unrhyw ran o'u cartref ac eithrio gofod preifat cyd-denantiaid?
10. Oes yna offer fel llinell ffôn, offer swyddfa a ffeiliau sydd yn eiddo i'r darparydd cefnogaeth neu dai yng nghartref y tenant?
11. Oes gan y landlord neu staff y darparydd cefnogaeth fynediad rhydd ac oes ganddyn nhw allweddi i gartref y tenant?

¹ Tim Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant – Y Prawf Tenantiaeth Real – hawliau tenantiaeth mewn byw gyda chefnogaeth 2015

Mae'r Prawf Tenantiaeth Real yn cynnig dull syml a chlr, waeth pa fath o dai a chefnogaeth a ddarperir, i bobl sydd yn rhan o gomisiynu, darparu neu dderbyn tai a chefnogaeth i gymryd trosolwg eang i weld os ydy hawliau tai pobl yn cael eu parchu'n gywir neu a ydy'r trefniadau mewn gwirionedd yn denantiaeth ffug ac y gallai fod yn agored i'w herio.

Atodiad 5 Comisiynu strategol



Mae'r angen i ddatblygu gwybodaeth mwy effeithiol i lywio comisiynu wedi cael ei gydnabod ers cryn amser.

Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2016: "Ileiafrif yn unig fodd bynnag sydd wedi symud yn llwyddiannus y tu hwnt i gynllunio unigol i adeiladu asesiadau cynhwysfawr a dealladwy o anghenion gofal a chefnogaeth cyfredol ac yn y dyfodol i bobl gydag anableddau dysgu yn yr ardal leol".

Comisiynu Strategol o wasanaethau llety i oedolion gydag anableddau dysgu (Archwilydd Cyffredinol Cymru): *“Mae awdurdodau lleol angen data ariannol a phoblogaeth o well ansawdd i sicrhau ei bod yn gwneud y penderfyniadau mwyaf gwybodus.”*

Er mwyn datblygu datganiad sefyllfa marchnad cywir, gall byrddau partneriaeth rhanbarthol gynnal dadansoddiad marchnad o wasanaethau cyfredol a galw yn y dyfodol. Dydyn ni ddim yn gweithio ar ‘Safle Cae Gwyrdd’; mae gwasanaethau yn bodoli ac wedi’u hategu gan fuddsoddiad ariannol sylweddol. Lle da i ddechrau ydy deall pa wasanaethau sydd yn bodoli, sut maen nhw’n adlewyrchu gwerthoedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru; a faint maen nhw’n gostio. Mae hyn wedyn yn darparu cam tuag at lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.

Fe fyddai’n gwneud synnwyr i ddatblygu dull cenedlaethol o benderfynu ar yr wybodaeth i’w chasglu ar gyfer dadansoddiad marchnad o wasanaethau llety a chefnogaeth i bobl gydag anabledd dysgu. Fe fyddai’n galluogi comisiynwyr i feincnodi gwasanaethau. Mae’r wybodaeth yma ar gael i wasanaethau preswyl drwy’r System Comisiynu Perfformiad Sicrwydd Ansawdd (CCAPS) wedi’i ddylunio i’w ddefnyddio gan gomisiynwyr GIG ac awdurdodau lleol. Mae CCAPS yn helpu comisiynwyr i nodi’r gofal preswyl gorau, gan gymryd i ystyriaeth y gost fesul noson, ansawdd y graddfeydd gofal a’r pellter o’r lleoliad dewisol a nifer y gwelyau sydd ar gael.

Ond, nid oes system o gasglu gwybodaeth ar hyn o bryd ar gyfer dewisiadau heb fod yn breswyl o lety a chefnogaeth. Efallai y bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol felly yn dymuno cynnal dadansoddiad marchnad drwy’r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ynghyd ag Uned Data Cymru, darparwyr a rhanddeiliaid eraill i sefydlu prosiect ffurfiol gyda mesurau cyson i alluogi meincnodi ar draws Cymru. Os ydy prosiect o’r fath yn ddymunol fe fydd yn bwysig datblygu fframwaith priodol i ddal gwybodaeth ar bobl cyfredol a hefyd datblygu systemau priodol i ddiweddarau’r wybodaeth. Fe fyddai system o’r fath yn dal gwybodaeth am bobl newydd sydd yn dod i mewn i’r gwasanaeth yn ogystal â dull o gofnodi unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau.

Mantais y dull yma ydy y byddai, yn ychwanegol at lywio MPS, yn darparu adroddiadau rheolaidd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill ar befformiad ac fe fyddai’n llywio gwneud penderfyniadau am fwriadau comisiynu yn y dyfodol. Fe fydd yr wybodaeth hefyd yn llywio penderfyniadau buddsoddi darparwyr.

Fe ddylai’r dadansoddiad yma gwmpasu pobl sydd yn byw mewn amrediad cyfan o leoliadau gydag amrywiol anghenion. Efallai bod angen casglu’r wybodaeth ar wahân ar gyfer ysbytai, cartref gofal a chartrefi gofal preswyl.

Gall y dadansoddiad nodi cyfleoedd i ystyried trosglwyddo adnoddau rhwng lleoliadau yn briodol.

Darperir darlun or wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dadansoddiad marchnad isod. Mae angen ymgynghori a mireinio pellach ac ar y cam hwn mae wedi ei ddylunio i annog trafodaeth yn unig.

Caiff ei gasglu drwy fframwaith a ddyluniwyd i hwyluso cydgasglu gwybodaeth ynghyd â'i ddadansoddiad i lywio gwneud penderfyniadau. Fe fydd yr Uned Data yn defnyddio ei arbenigedd i ddylunio'r offer i ddal data ac fe fydd yn casglu'r wybodaeth. Fe fydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu dadansoddiad o'r data.

Cesglir yr wybodaeth mewn perthynas â phob person sydd yn derbyn gofal a chefnogaeth. Os ydy hyn yn ymddangos yn hynod o anodd, mae dadansoddiad marchnad o gartrefi gofal i bobl hŷn eisoes wedi'i gynnal yn cynnwys bron i 20,000 o breswylwyr. I bobl rhwng 16 – 24 oed rydym yn siarad am lai na 5,000 o bobl.

Gall yr wybodaeth sydd i'w chasglu gan bartneriaid awdurdod lleol a bwrdd iechyd gynnwys:

- Enw'r awdurdod lleol/bwrdd iechyd sydd yn darparu'r wybodaeth.
- Adnabyddwr unigol (enw neu rif cod).
- Dyddiad geni.
- Enw a chyfeiriad cartref.
- Lleoliad y cartref (awdurdod lleol lle mae'r cartref wedi'i leoli)
- Enw'r darparrydd gofal a chefnogaeth.
- Sector y darparrydd gofal a chefnogaeth (awdurdod lleol, preifat, trydydd sector/menter cymdeithasol etc)
- Defnydd taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal a chefnogaeth.
- Enw'r darparrydd llety.
- Sector y darparrydd llety (landlord preifat, landlord cymdeithasol cofrestredig, awdurdod lleol, yn berchen eu cartref eu hunain).
- Dyddiad y symudodd y person i lety byw gyda chefnogaeth. Mae hyn yn helpu i benderfynu hyd y lleoliad.
- Oedran derbyn gwasanaeth byw gyda chefnogaeth. Fe fydd hyn yn ei dro yn nodi'r oedrannau brig ar gyfer derbyn gwasanaethau. Gellir ei ddefnyddio ar y cyd gyda gwybodaeth ar bobl y mae'n wybyddus eu bod nhw'n byw gyda rhieni i amcangyfrif galw yn y dyfodol.

- Lleoliadau blaenorol mewn gofal byw gyda chefnogaeth neu ofal preswyl :
 - lleoliad (darparwydd gofal a chefnogaeth)
 - darparwydd llety
 - dyddiad y dechreuodd y gwasanaeth
 - dyddiad y gorffennodd y gwasanaeth
 - rheswm dros newid gwasanaeth (e.e. newid mewn anghenion, anhapusrwydd person, gofynion anghymharus tenantiaid eraill, newid darparwydd gwasanaeth drwy aildendro).
- Cyllido gwasanaethau – ffioedd wythnosol:
 - gwasanaethau cymdeithasol
 - gofal lechyd parhaus GIG (CIC)
 - budd-dal tai
 - cost gwasanaeth landlord cymdeithasol cofrestredig
 - Cefnogi Pobl
- Cronfa Byw'n Annibynnol neu'r un sydd yn ei le.

Gwybodaeth i'w darparu gan ddarparwyr gofal a chefnogaeth:

- Nifer o leoedd gwag i'w cyflenwi mewn amser gwirioneddol.
- Pobl y mae eu gofal a'u chefnogaeth yn cael ei gyllido gan awdurdodau iechyd/byrddau iechyd y tu allan i Gymru.
- Hunangyllidwyr.
- Cyllido gan Ofal lechyd Parhaus.
- Niferoedd ar restr aros. Fe ddylai darparwyr helpu awdurdodau lleol i gynnal rhestr aros gywir; gall pobl fod ar restrau aros mwy nag un darparwydd.

Fe fydd yr wybodaeth yn darparu llinell sylfaen ar y dewisiadau llety a gofal a chefnogaeth sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yn ogystal â'u costau. Fel y nodwyd uchod, fe fydd angen diffiniad a mireiniad mwy gofalus.

Fe fydd y dadansoddiad yn helpu pobl i ddatblygu dealltwriaeth dda o lefel a math o lety a dewisiadau tai a gwasanaethau a ddarperir yn lleol.

Fe fydd y dadansoddiad yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r nifer o bobl sydd yn byw yn y trefniadau llety canlynol:

- byw gyda chefnogaeth neu dai a rennir a llety a chefnogaeth yn cael eu darparu gan wahanol ddarparwyr
- byw gyda chefnogaeth neu dai a rennir a llety a chefnogaeth yn cael eu darparu gan yr un darparwydd
- lleoliadau Cysylltu Bywydau
- gofal preswyl.

Ar gyfer pob un o'r trefniadau hyn, fe fydd y dadansoddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Faint o bobl sydd wedi'u lleoli allan o'r sir a pham (e.e. dewis y person, dim gwasanaethau ar gael yn y sir, arall).
- Costau pob lleoliad a chostau i bob parti neu bartner.
- Darpariaeth gofal a chefnogaeth yn ôl sector (ni all ystadegau cenedlaethol cyfredol wahaniaethu rhwng sector preifat, trydydd sector/mentrau cymdeithasol).
- Darpariaeth llety yn ôl sector ynghyd â pherchnogaeth cartref.
- Oedran yn mynd i wasanaeth byw gyda chefnogaeth (fe fydd hyn yn helpu i nodi adegau prysur a gall helpu i amcangyfrif galw yn y dyfodol).

Fe fyddai'n ddefnyddiol i'r dadansoddiad marchnad o ran asesu galw yn y dyfodol i gael data ar y nifer o bobl gydag anabledd dysgu sydd yn byw gartref gyda gofalwyr teulu, eu hoedran ac oedran eu gofalwyr teulu. Fe fyddai hefyd yn ddefnyddiol edrych ar fwriadau teuluoedd o ran edrych ar ddewisiadau byw gyda chefnogaeth i helpu i amcangyfrif galw er mwyn cynllunio gyda chydweithwyr a darparwyr tai. Gellid cyflawni hyn yn rhannol drwy'r broses rheoli gofal neu drwy'r defnydd o ymarferion ymgysylltu.

Mae'n bwysig deall anghenion pobl ifanc sydd yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau plant ac sydd yn symud i wasanaethau oedolion ac felly mae'n holl bwysig cael systemau gwybodaeth a chyfathrebu cadarn rhwng gwasanaethau addysg, iechyd, plant a phobl ifanc sydd yn dal anghenion llety a chefnogaeth. Fe ddylid casglu hyn cyn gynted â phosibl.

Does yr un system ar gyfer amcangyfrif galw yn berffaith ond gallwn gasglu cymaint o wybodaeth ag sydd yn ymarferol i fodelu galw a gwariant i'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Fe fydd cwblhau'r dadansoddiad marchnad yn darparu gwybodaeth gywir i lywio datblygiad datganiad sefyllfa marchnad. Ond, mae iddo gyfyngiadau os yw'n seiliedig yn unig ar astudiaeth yn seiliedig ar gyfrifiad ar bwynt sengl mewn amser. Rydym angen gwybodaeth ar dueddiadau i olrhain newidiadau mewn galw, costau, darpariaeth gwasanaeth etc. Rydym felly angen diweddarau'r dadansoddiad marchnad. I gyflawni hyn rydym yn dechrau gyda'r bwriad o ddiweddarau'r dadansoddiad drwy gynnal y gronfa ddata a dal gwybodaeth wrth i bobl newydd ddefnyddio gwasanaethau yn ogystal â chofnodi unrhyw newidiadau yn amgylchiadau pobl sydd eisoes ar y system e.e. newidiadau llety, newidiadau i gyllido etc.


Gallwn ddefnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad yn ogystal ag adrodiadau gwybodaeth rheolaeth parhaus ar y cyd gyda rhagolygon poblogaeth i'n helpu i amcangyfrif galw am wasanaethau yn y dyfodol. Efallai y byddwn yn dymuno newid y darluniau yma drwy wneud gwahanol benderfyniadau buddsoddi. Gall comisiynwyr fod eisiau datblygu gwasanaethau wedi'u targedu i leihau'r galw am wasanaethau gofal preswyl.

Mae'r data yma yn darparu gwybodaeth i wella ein dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau yr amrediad cyfredol o ddewisiadau tai a chefnogaeth. Fe fyddai ein dealltwriaeth yn gwella yn sylweddol os ydym yn gallu mesur canlyniadau.

Mae comisiynwyr yn drafftio datganiadau sefyllfa marchnad ar gyfer darparwyr cyfredol a photensial gwasanaethau. Y nod ydy darparu gwybodaeth yn ôl cyflenwad a galw i wasanaethau mewn ardal ynghyd â beth ydy cynlluniau'r comisiynwyr. Fe fydd darparwyr yn defnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu eu cynlluniau busnes ac i lywio eu penderfyniadau buddsoddi yn cynnwys o bosibl cyfalaf a phersonel. Gall y penderfyniadau yma gynnwys benthyg. Mae'n bwysig iawn felly bod y datganiadau sefyllfa marchnad mor gywir â phosibl a chaiff y cywirdeb yma ei wella gyda dadansoddiad marchnad manwl.

Atodiad 6 Dewisiadau cyllido potensial i gefnogi rhywun yn eu llety

Mewn perthynas â dewisiadau cyllido i unigolyn yng Nghymru sydd angen gofal a chefnogaeth yn eu llety, mae nifer o ffynonellau a mecanweithiau sydd yn gallu cefnogi bywyd da. Mae'r diagram isod yn disgrifio'r cyrff a'r dulliau allweddol sydd yn gwneud i hyn ddigwydd s.



Gellir crynhoi'r rhain fel â ganlyn:

- Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar ganlyniadau gofal cymdeithasol
- Mae byrddau iechyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau iechyd
- Mae cyllid Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn berthynol i denantiaeth
- Cyfraniadau gan bobl eu hunain yn seiliedig ar asesiad incwm
- Hunangyllido lle mae'r person yn cyllido'r pecyn cyfan oni bai ei fod yn berthynol i anghenion iechyd
- Taliadau uniongyrchol – y prif fecanwaith i'r person brynu eu cefnogaeth eu hunain naill ai drwy gynorthwy-ydd personol y maen nhw'n eu cyflogi yn uniongyrchol neu drwy asiantaeth y gall y person eu comisiynu. Darperir cyllid gan yr awdurdod lleol gan nad ydy hi'n bosibl defnyddio cyllid iechyd yng Nghymru ond mae mecanweithiau i gyflawni hyn.

Lle mae cyfuniad o anghenion a chanlyniadau, gellir cyllido pecynnau cefnogi drwy gyfuniad o'r uchod. Er enghraifft, efallai bod gan rhywun anghenion gofal cymdeithasol, anghenion iechyd, anghenion cefnogi yn berthynol i denantiaeth a mae modd iddyn nhw gyfrannu yn ariannol at yr anghenion gofal cymdeithasol. Gall fod cymhlethdod o gyfraniadau ariannol i'r pecyn cefnogaeth sydd yn anodd i'r person a'r teuluoedd ei ddeall. Gall y diagram canlynol gyda'r matrices wedi'i ddarparu yn y diagram uchod fod o gymorth felly.

Mae systemau yn bodoli i benderfynu ar anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd ac mae'r anghenion yn cael eu hasesu, y cynlluniau cefnogi'n cael eu datblygu a'r ymatebion gwasanaeth ac adnoddau perthnasol yn cael eu nodi yn dilyn prosesau gwneud penderfyniadau sydd yn penderfynu ar ddyraniad adnoddau a chyfraniad ariannol.

Mae adnoddau Cefnogi Pobl yn cael eu dyrannu'n seiliedig ar y cynllun gofal a nodwyd a nodir cyfraniad ariannol cymesur.

Penderfynir ar gyfraniad person i'r pecyn cefnogi gofal cymdeithasol drwy asesiad o'u hincwm personol a phenderfynir ar gyfraniad yn unol â fformilwau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru drwy drefniadau lleol yn yr awdurdod lleol.

Os oes gan y person lefel sylweddol o incwm ac asedau, efallai mai'r casgliad ydy y dylai'r person gyllido'r pecyn gofal cymdeithasol cyfan.

Mae cyllido iechyd am ddim ac fe ddylai'r person gyfrannu at eu hanghenion iechyd oni bai bod ganddyn nhw yswiriant preifat neu eu bod yn dewis gofal iechyd preifat.

Mewn rhai achosion lle caiff taliadau uniongyrchol eu nodi fel y dull mwyaf priodol o gomisiynu gwasanaethau, caiff yr anghenion eu hasesu gan yr awdurdod lleo a dyrennir adnoddau priodol. Dylid hyrwyddo dulliau hyblyg o gomisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Atodiad 7 Rhestr o gyfrannwyr

Cydgynhyrchwyd y canllaw hwn gan fwrdd golygyddol o'r bobl ganlynol (yn ôl trefn yr wyddor) sydd yn cynrychioli amrediad eang o gyrrff allweddol:

- Maria Bell, Rheolwrag Rhaglen, Cydweithrediaeth Gwelliant Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Gogledd Cymru
- Adrian Burke, Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai First Choice
- Mark Cooper, Cydgysylltydd Taliadau Uniongyrchol, Cyngor Sir y Fflinti
- Richard Dooner, Rheolwr Rhaglen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Steve Garland, Ymgynghorydd Annibynnol, Cyngor Gofal Cymdeithasol Annibynnol Garland a gomisiynwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- Claire Hough, Rheolwraig Rhaglen, Rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu, Llywodraeth Cymru
- Dr Edwin Jones, Arweinydd Gwelliant ac Ymchwil Gwasanaeth, Uned Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Martyn Jones, Prif Weithredwr, Anabledd Dysgu Cymru
- Ramona Murray, Rheolwraig Gwasanaeth Gwasanaethau Oeodlion, Cyngor Sir Conwy
- Joe Powell, Cyfarwyddwr Gweithredol, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Adrian Roper, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymru
- Simon Rose, Rheolwr Hyfforddiant a Digwyddiadau, Anabledd Dysgu Cymru
- Tim Southern, Prif Weithredwr, Ategi
- Dave Street, Cadeirydd, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Oliver Townsend, Rheolwr Polisi Allanol, Cymorth Cymru
- Steve Vaughan, Rheolwr Rhaglen, Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (bellach wedi ymddeol)
- Paul Webb, Arweinydd Tai Cefnogi Pobl, Llywodraeth Cymru
- Samantha Williams, Cydgysylltydd Polisi a Rhwydwaith, Anabledd Dysgu Cymru
- Rick Wilson, Prif Weithredwr, Consortiwm Bywydau Cymunedol
- Kate Young, Cyfarwyddwraig, Fforwm Rhieni a Gofalwyr pobl gydag anableddau dysgu Cymru Gyfan
- Pauline Young, Ymddiriedolwr, Fforwm Rhieni a Gofalwyr pobl gydag anableddau dysgu Cymru Gyfan

Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol

Mawrth 2019



CLILC • WLGA